ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y cod apelau derbyn i ysgolion

## Cod Statudol

Dogfen Cod Statudol rhif: 001/2023
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023
Replaces statutory code no: 007/2013

# Y cod apelau derbyn i ysgolion

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau derbyn; awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; awdurdodau esgobaethol; fforymau derbyn; panelau apelau derbyn; Estyn. |
| **Trosolwg** | Mae'r Cod hwn yn gosod gofynion ac yn cynnig arweiniad mewn cysylltiad â'r modd y mae awdurdodau derbyn, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn a phanelau apelau derbyn yn cyflawni eu swyddogaethau o ran apelau derbyn i ysgolion. |
| **Camau i'w Cymryd** | **Rhaid** i awdurdodau derbyn, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, ysgolion a gynhelir, fforymau derbyn a phanelau apelau derbyn 'weithredu'n unol â'r' Cod. |
| **Rhagor o Wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:<br>Y Gangen Trefniadaeth a Derbyniadau i Ysgolion<br>Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg<br>Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: SchoolsManagementDivision3@llyw.cymru<br><br>@LIC_Addysg<br><br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau Ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/derbyniadau-ysgolion |
| **Dogfennau Cysylltiedig** | Gweler Atodiad F |

OGL © Hawlfraint y Goron 2023 ISBN digidol 978-1-83577-043-6 WG47651

# Cynnwys

**Crynodeb** **1**

**1. Cyflwyniad** **2**
Yr awdurdod derbyn ar gyfer pob math o ysgol 3
Amcanion y broses apelio 4

**2. Apelau gan rieni/personau ifanc: cyfansoddiad panelau apêl a'r gweithdrefnau statudol ar gyfer apelau** **5**
Cyflwyniad 5
Aelodaeth y panelau apêl 5
Dyletswydd i hysbysebu am aelodau lleyg 6
Hyfforddi aelodau'r panelau 6
Cyfnod gwasanaeth aelodau ar banel 7
Indemniad 7
Cyfrifoldeb am gostau panelau apêl 7
Lwfansau ar gyfer aelodau panelau apêl 7
Buddiannau aelodau panelau apêl 8
Sicrhau bod cworwm o aelodau ar y panel 9

**3. Rolau a chyfrifoldeb** **10**
Clerc y panel 10
Y cadeirydd 11
Aelodau'r panel 11
Yr apelydd 11
Y swyddog cyflwyno 11

**4. Camau cyn y gwrandawiad apêl** **13**
Yr hawl i apelio 13
Rhieni/personau ifanc yn hysbysu ei bod yn fwriad ganddynt apelio 13
Hysbysu apelwyr ynglŷn â dyddiad y gwrandawiad apêl 13
Gwybodaeth i apelwyr am apelau 14
Amserlen apelau derbyn 15
Presenoldeb a chynrychiolaeth 16
Tystiolaeth a thystion 17
Lleoliad yr apêl 17
"Lobïo" aelodau'r panel 18
Paratoi a chyflwyno tystiolaeth gan yr awdurdod derbyn cyn y gwrandawiad 18

**5. Y gwrandawiad apêl** **20**
Natur y gwrandawiad 20
Trefn y gwrandawiad 20
Materion y mae'n ofynnol, yn ôl rheoliadau ac yn ôl y Cod hwn, i'r panel apêl eu hystyried 21
Hoff ddewis rhieni 21

Maint dosbarthiadau babanod 22
Penderfynu ar apelau heblaw apelau maint dosbarthiadau babanod 23
Proses dau gam 23
Ystyried anfantais 24
Apelau sawl-achos 25
Apelau derbyn i chweched dosbarth 27
Nodiadau neu gofnod o’r achos 27
Ceisiadau y tu allan i’r flwyddyn derbyn arferol 28
Ysgolion â threfniadau dethol rhannol 28
Rhestrau aros 28
Plant â datganiadau anghenion addysgol arbennig 28
Plant ag anghenion addysgol arbennig nad oes ganddynt ddatganiadau 29
Plant â chynllun datblygu unigol 29
Plant ag anableddau 29
Penderfynu 30

**6. Ar ôl y gwrandawiad apêl 31**
Hysbysu’r apelwyr ynglŷn â’r penderfyniad 31
Ceisiadau ac apelau o’r newydd 32
Cwynion wrth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 33
Cwynion wrth Weinidogion Cymru 33

**7. Apelau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol i dderbyn disgyblion sydd ‘wedi’u gwahardd ddwywaith’ (ac eithrio plant sy’n derbyn gofal) 34**
Rhybudd ynglŷn ag apêl 34
Y panel apêl 34
Y weithdrefn apelio 34

**8. Hyfforddi aelodau’r panel apêl ac ymarferwyr eraill 36**
Ystyriaethau cyffredinol 36

**Atodiad A: Apelau derbyn – y gyfraith 37**
Cyflwyniad 37
Yr hawl i apelio dan Ddeddf 1998 (fel y’i diwygiwyd) 37
Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 (fel y’u diwygiwyd) 38
Deddfwriaeth berthnasol arall 39
Deddf Cydraddoldeb 2010 39
Deddf Hawliau Dynol 1998 40
Pwerau panelau apêl 40

**Atodiad B: Egwyddorion arweiniol cyffredinol ar gyfer panelaui apêl 42**
Egwyddorion ymarferol 42
Y gwrandawiad effeithiol 43

**Atodiad C: Cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau babanod a'r goblygiadau ar gyfer apelau** **45**
Cyflwyniad 45
Cyfyngiadau ar gwmpas apelau derbyn yn sgil y cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau babanod 45
Ffactorau eraill wrth ystyried apelau ynglŷn â maint dosbarthiadau babanod 48

**Atodiad D: Gwahaniaethau diwylliannol** **50**
Enwau a systemau enwi 50
Systemau enwi De Asia 50
Gwyliau crefyddol ac arferion crefyddol 51

**Atodiad E: Deunydd ychwanegol (mae'r wybodaeth yn gywir adeg ei chyhoeddi)** **52**

**Atodiad F: Dogfennau cysylltiedig** **53**

**Geirfa** **55**

# Crynodeb

Mae'r Cod ar Apelau Derbyn i Ysgolion yn cynnwys arweiniad ymarferol ac yn gosod gofynion ar awdurdodau derbyn, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, panelau apelau derbyn a fforymau derbyn mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau apelau derbyn o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Mae'r Cod yn cynnwys canllawiau sy'n egluro'r nodau, yr amcanion a materion eraill yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau apelau a **rhaid** i'r holl gyrff neu unigolion perthnasol "weithredu'n unol â'r" Cod. Mae'r Cod yn disodli Cod Llywodraeth Cymru ar Apelau Derbyn i Ysgolion a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013.

Bydd y Cod yn helpu pawb sydd â buddiant mewn apelau derbyn i ysgolion ac yn helpu i sicrhau bod y system apelau yn gweithio er budd ysgolion a disgyblion.

Y prif newidiadau sy'n cael eu cyflwyno gan y Cod yw bod opsiwn wedi'i ychwanegu ar gyfer cynnal apelau derbyn o bell yn ogystal ag wyneb yn wyneb. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau a wneir gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 a ddaeth yn weithredol o 3 Mai 2023 pan ddaeth y Rheoliadau hynny i rym.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Gwneir y Cod hwn o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (a elwir yn Ddeddf 1998 yn y Cod hwn)[1] sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau derbyn gan:

- **Awdurdodau derbyn** – Awdurdodau Lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, oni bai bod y swyddogaeth, o dan adran 88(1)(a)(ii) o Ddeddf 1998, wedi'i dirprwyo i'r corff llywodraethu. Cyrff llywodraethu yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir.
- **Cyrff llywodraethu** (gan gynnwys y rheini nad ydynt yn awdurdodau derbyn).
- **Awdurdodau Lleol** (pan nad ydynt yn gweithredu fel awdurdodau derbyn).
- **Fforymau derbyn**.
- **Panelau apelau derbyn**.

Mae gan bob un o'r cyrff a grybwyllir ddyletswydd statudol i "weithredu'n unol" â'r Cod hwn ac â'r Cod Derbyn i Ysgolion.

1.2 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") a ddaeth i rym ar 3 Mai 2023 yn cynnwys opsiwn i apelau gael eu cynnal o bell yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau. Mae'r newidiadau hyn yn berthnasol i bob apêl a wrandewir am y tro cyntaf ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae'r Cod hwn yn adlewyrchu Rheoliadau 2023. Daw'r Cod hwn i rym ar 1 Tachwedd 2023 ac mae'n disodli'r Cod Ymarfer blaenorol ar Apelau Derbyn i Ysgolion. Mae'n berthnasol i apelau derbyn i ysgolion cynradd, uwchradd a chanol (gan gynnwys chweched dosbarth/Blwyddyn 12); **nid** oes hawl i apelio ynghylch dyrannu lleoedd Meithrin. **Dylid** ei ddarllen ochr yn ochr â'r Cod Derbyn i Ysgolion a chanllawiau a deddfwriaeth arall sy'n effeithio ar dderbyn ac ar apelau derbyn yng Nghymru.

1.3 Mae'r Cod hwn yn cyfeirio at ofynion statudol (h.y. a osodir drwy ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth) ac mae'n gosod gofynion gorfodol y mae **rhaid** i'r cyrff hynny a restrir ym mharagraff 1.1 uchod gydymffurfio â hwy. Ceir cyfeiriad at y ddarpariaeth statudol berthnasol yn y testun neu yn y troednodyn. Lle bydd y Cod hwn (neu ddarpariaethau statudol) yn gosod gofynion gorfodol, dywedir bod **rhaid** i'r cyrff perthnasol gydymffurfio â'r gofyniad penodol neu â'r ddarpariaeth benodol. Lle bydd y Cod hwn yn gwahardd arferion, dywedir **na chaiff** y corff neu'r cyrff perthnasol ddefnyddio'r arfer hwn.

1.4 Mae'r Cod hwn hefyd yn cynnwys canllawiau y **dylai**'r cyrff perthnasol eu dilyn oni allant ddangos, os herir hwy, bod cyfiawnhad dros beidio â gwneud hynny. Lle bydd y canllawiau'n cyfeirio at arferion da, bydd y Cod yn dweud y **dylai**'r cyrff perthnasol ddilyn y canllawiau penodol. Ar y llaw arall, lle bydd y canllawiau'n cyfeirio

[1] Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

at arfer sydd fel rheol yn cael ei ystyried yn arfer gwael, bydd y Cod yn dweud **na ddylid** defnyddio'r arfer, er y gall fod amgylchiadau eithriadol lle y bydd modd ei gyfiawnhau.

## Yr awdurdod derbyn ar gyfer pob math o ysgol

| Math o ysgol | Pwy yw'r awdurdod derbyn? | Pwy sy'n gyfrifol am drefnu apêl derbyn? |
|---|---|---|
| Ysgolion Cymunedol | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol |
| Ysgolion Gwirdoddol a Reolir | Awdurdod Lleol | Awdurdod Lleol |
| Ysgolion Sefydledig | Corff Llywodraethu | Corff Llywodraethu |
| Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir | Corff Llywodraethu | Corff Llywodraethu |

1.5 Mae'r Cod hwn yn ymdrin â dau gategori ar wahân o apelau derbyn:

- Apelau gan rieni[2] neu bersonau ifanc yn achos derbyn i chweched dosbarth yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i ysgolion i wrthod cynnig lle yn yr ysgol dan sylw, ac
- Apelau gan gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol sy'n awdurdod derbyn ar eu cyfer i dderbyn plentyn i'w hysgol sydd wedi'i wahardd yn barhaol o 2 ysgol neu ragor cyn hynny.

1.6 Ymdrinnir â'r 2 fath hyn o apêl ar wahân yn y Cod hwn ym Mhenodau 2 i 6, ac ym Mhennod 7, yn y drefn honno.

1.7 Gan fod amgylchiadau lleol yn amrywio'n fawr, nid yw'r Cod hwn yn ceisio cynnig arweiniad ynglŷn â phob sefyllfa bosibl. Nid yw ychwaith yn pennu'n union sut y **dylai'r** sawl sy'n gyfrifol am y trefniadau, nac aelodau'r panelau apêl, weithredu y tu hwnt i'r gofynion statudol a nodir ac a esbonnir yn y Cod. Mae angen bod yn hyblyg ac yn sensitif i amgylchiadau unigol wrth ymdrin ag apelau, ar yr amod bod y rhain yn aros o fewn y fframwaith cyfreithiol.

1.8 Bwriedir y Cod yn bennaf ar gyfer y sawl sy'n gyfrifol am y trefniadau ar gyfer apelau ac ar gyfer aelodau'r panelau a chlercod y panelau. Gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi arweiniad symlach i rieni a phersonau ifanc ynglŷn â'r system apelio ond mae awdurdodau derbyn, sy'n gyfrifol am sefydlu'r trefniadau apelio, hefyd mewn

[2] Yr ystyr a roddir i "parent" yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996.

sefyllfa dda i gynnig cyngor i rieni neu bersonau ifanc am y trefniadau apelio lleol (gweler paragraffau 4.5 i 4.8).

## Amcanion y broses apelio

1.9 **Dylai** apelau derbyn arddel yr amcanion sylfaenol hyn:

- Darparu fforwm annibynnol, diduedd ond anffurfiol i'r rhieni (a phersonau ifanc yn achos apelau derbyn i chweched dosbarth) ac i'r awdurdod derbyn dan sylw (neu'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol yn achos penderfyniadau i dderbyn disgyblion a waharddwyd ddwywaith) fel y gallant gyflwyno'u hachos gan deimlo'n hyderus y cânt wrandawiad teg.
- Sicrhau bod y panelau apêl yn pwyso a mesur yn ofalus ac yn wrthrychol yr holl dystiolaeth a gyflwynir iddynt cyn penderfynu'n derfynol ynglŷn â'r apêl.
- Gweithredu o fewn gofynion y ddeddfwriaeth a nodir yn Atodiad A. Mae panelau apêl yn cyflawni swyddogaeth farnwrol a **rhaid** iddynt gymhwyso egwyddorion cyfiawnder naturiol. (Atodiad B paragraff B3).
- Rhoi sylw i'r holl ganllawiau perthnasol wrth roi trefniadau apelio ar waith, megis y Cod hwn; y Cod Derbyn i Ysgolion; Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Cymru; y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Darparu system sy'n glir, yn gyson ac mor hawdd i'w deall ag y bo modd i bawb sy'n ymwneud â hi.

1.10 Pan fydd cyrff llywodraethu'n apelio yn erbyn penderfyniadau i dderbyn i'w hysgolion ddisgyblion a waharddwyd ddwywaith, mae'r un egwyddorion sylfaenol a ddisgrifir uchod yn berthnasol hefyd.

1.11 Ceir manylion gofynion cyfreithiol apelau o dan Ddeddf 1998 yn ogystal â deddfwriaeth arall sy'n berthnasol i apelau, yn Atodiad A i'r Cod hwn.

# 2. Apelau gan rieni/personau ifanc: cyfansoddiad panelau apêl a'r gweithdrefnau statudol ar gyfer apelau

## Cyflwyniad

2.1 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Cymru) (Cymru) 2005 fel y'u diwygiwyd[3] ("Rheoliadau 2005"), yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfansoddiad y panelau apêl. Mae'r darpariaethau cyfreithiol ar gyfer panelau apêl a drefnir gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir yn wahanol i'r rheini a geir ar gyfer panelau a drefnir gan gyrff llywodraethu ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. O safbwynt ymarferol, mae'r gofynion yn debyg ac mae'n arfer da i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydlu panelau ar y cyd os byddant yn dewis gwneud hynny.

## Aelodaeth y panelau apêl

2.2 O dan Reoliadau 2005, **rhaid** i'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu benodi naill ai 3 neu 5 aelod ar gyfer pob panel. **Rhaid** i bob panel gynnwys:

- O leiaf 1 aelod lleyg. Golyga hyn bobl nad oes ganddynt brofiad personol o reoli unrhyw ysgol na darparu addysg mewn unrhyw ysgol. Byddai pobl â phrofiad o wirfoddoli ym myd addysg neu o fod yn llywodraethwr yn cael eu caniatáu.
- O leiaf 1 person â phrofiad ym myd addysg, sy'n gyfarwydd ag amgylchiadau addysgol ardal yr awdurdod, neu sy'n rhiant i ddisgybl sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol arall.

2.3 Gwaherddir y bobl ganlynol rhag bod yn aelod ar banel apêl:

- Unrhyw aelod o'r awdurdod lleol (e.e. cynghorwyr), neu o gorff llywodraethu'r ysgol dan sylw.
- Unrhyw un, ac eithrio athro/athrawes ysgol arall, a gyflogir gan yr awdurdod lleol neu gan y corff llywodraethu.
- Unrhyw un sydd â chysylltiad â'r awdurdod lleol neu â'r ysgol, neu sydd wedi bod â chysylltiad o'r fath erioed (e.e. cyn-aelodau'r corff llywodraethu), neu ag unrhyw aelod o'r awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu neu rywun a gyflogir ganddynt fel y gallai amheuon rhesymol godi ynglŷn â gallu'r person hwnnw i weithredu'n ddiduedd gyda golwg ar yr awdurdod lleol neu'r ysgol. Nid yw'r ffaith bod rhywun wedi'i gyflogi'n athro/athrawes gan yr awdurdod lleol yn rheswm ynddo'i hun dros ei wahardd rhag bod yn aelod - onid oes rheswm arall dros amau ei allu i weithredu'n ddiduedd.

[3] Fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009, Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023.

- Unrhyw un y bu ganddo ran mewn unrhyw drafodaethau, neu a gyfrannodd atynt, ynglŷn â'r penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn neu'r person ifanc sy'n destun yr apêl.

2.4 **Rhaid** i aelodau unigol y panel ddatgelu a yw unrhyw un o'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 2.3 yn berthnasol iddynt hwy.

2.5 Os bydd awdurdod lleol a/neu gyrff llywodraethu ysgolion yn gwneud trefniadau ar y cyd ar gyfer apelau, mae'r cyfeiriadau ym mharagraffau 2.2 a 2.3 at y corff llywodraethu ac at yr ysgol yn berthnasol i unrhyw gorff llywodraethu neu i unrhyw ysgol sy'n ymwneud â'r trefniadau.

2.6 Caiff awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu benodi digon o aelodau i'r panelau er mwyn i ddau banel neu ragor eistedd ar yr un pryd (ond gweler hefyd baragraffau 5.21 i 5.25 ynglŷn â chynnal apelau sawl-achos). Lle bynnag y bo modd, **dylai** un panel wrando'r holl apelau ar gyfer ysgol benodol.

## Dyletswydd i hysbysebu am aelodau lleyg

2.7 O dan Reoliadau 2005, **rhaid** i'r cyrff sy'n gyfrifol am lunio cyfansoddiad panelau apêl hysbysebu am aelodau lleyg bob 3 blynedd. **Rhaid** gosod yr hysbysiad mewn o leiaf 1 papur newydd lleol a chaniatáu 21 diwrnod fan leiaf i bobl ateb. **Dylai** awdurdodau derbyn hefyd ystyried ffyrdd eraill o ddenu darpar aelodau e.e. taflenni mewn papurau newydd lleol neu gysylltu â chwmnïau lleol. Gall fod o gymorth bryd hynny hefyd ei gwneud yn glir y darperir hyfforddiant. Mewn rhai ardaloedd, bydd awdurdodau lleol (gyda chytundeb awdurdodau derbyn eraill) yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros recriwtio, hyfforddi a phenodi holl aelodau'r panelau apêl. Mae hon yn ffordd gosteffeithiol o sicrhau cysondeb ar hyd ac ar led ardal.

## Hyfforddi aelodau'r panelau

2.8 **Rhaid** i awdurdodau derbyn drefnu ac ariannu hyfforddiant ar gyfer aelodau panelau apêl, clercod panelau a swyddogion cyflwyno, cyn iddynt gael eu penodi i banel ac ar ôl hynny, i sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd ar gyfer aelodau panelau apêl ac ymarferwyr eraill.

2.9 Un opsiwn effeithiol yw cynnig hyfforddiant gwahanol ar gyfer rolau penodol, e.e. sgiliau cadeirio, rôl clerc neu rôl swyddog cyflwyno.

2.10 **Ni chaiff** awdurdodau derbyn ganiatáu i aelodau panel a chlercod gymryd rhan mewn gwrandawiadau apêl cyn cael hyfforddiant priodol. **Dylid** hysbysu aelodau am y categorïau ysgol sydd yn yr ardal berthnasol ac am y gwahaniaethau yn eu trefniadau derbyn. **Dylai** awdurdodau derbyn sicrhau bod aelodau profiadol y panel yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau perthnasol yn y llysoedd ac arweiniad perthnasol, a'u bod yn cael hyfforddiant gloywi rheolaidd o leiaf bob 3 blynedd. **Dylai** awdurdodau derbyn ystyried a oes cyfle i gydlynu hyfforddiant a bydd awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion yn elwa ar rannu

gwybodaeth ac arferion da gyda'i gilydd. **Dylai** awdurdodau lleol wahodd aelodau panelau apêl ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig i unrhyw hyfforddiant y gallent ei ddarparu ar gyfer eu panelau eu hunain. **Dylid** darparu hyfforddiant penodol cyfredol ar gadeirio panel i gadeiryddion y panelau, er mwyn iddynt gynnal y gwrandawiad mewn modd priodol gan ddefnyddio'r clerc yn gywir ac yn effeithiol. **Dylid** darparu hyfforddiant gloywi rheolaidd ar gyfer yr unigolion hyn hefyd.

## Cyfnod gwasanaeth aelodau ar banel

2.11 Nid yw'r gyfraith yn cyfyngu ar y cyfnod penodol ar gyfer gwasanaeth aelodau ar banel, ond **rhaid** i'r awdurdod derbyn adolygu aelodaeth y panel yn rheolaidd. Mae'n arfer da newid aelodaeth y panel sy'n gwrando apelau ar gyfer ysgol benodol yn rheolaidd (e.e. bob 3 mlynedd, i blethu â'r ddyletswydd i hysbysebu am aelodau lleyg) er mwyn osgoi rhoi'r argraff bod rhagfarn o blaid yr awdurdod derbyn. Gall cronni adnoddau gydag awdurdodau derbyn ac awdurdodau lleol cyffiniol fod o gymorth i sicrhau nad yw'r un aelodau'n eistedd ar banelau ar gyfer ysgol dro ar ôl tro.

## Indemniad

2.12 **Rhaid** i awdurdodau derbyn indemnio aelodau unrhyw banel apêl rhag unrhyw gostau cyfreithiol rhesymol ac unrhyw dreuliau rhesymol a ddaw i'w rhan yng nghyswllt unrhyw benderfyniad neu gam a gymerir ganddynt yn ddiffuant yn rhinwedd eu gwaith fel aelodau panel apêl[4].

## Cyfrifoldeb am gostau panelau apêl

2.13 **Rhaid** i awdurdodau lleol neilltuo arian rhesymol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion sy'n awdurdodau derbyn, i dalu am gostau derbyn ac apelau derbyn, oni fydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn cytuno mai'r awdurdod lleol ei hun a **ddylai** fod yn gyfrifol am weinyddu'r drefn ar ran y corff llywodraethu. Yr awdurdod lleol sydd i benderfynu a **ddylid** dyrannu'r arian hwn i'r ysgolion fel dyraniadau a neilltuwyd a bod hynny ar ben eu cyfran o'r gyllideb ac ar wahân i'w cyfran o'r gyllideb honno. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu dirprwyo arian ar gyfer swyddogaethau derbyn, **rhaid** iddo gydymffurfio â gofynion y rheoliadau sy'n llywodraethu fformiwlâu cyllido ysgolion a wnaethpwyd o dan adran 47 o Ddeddf 1998.

## Lwfansau ar gyfer aelodau panelau apêl

2.14 O dan Reoliadau 2005, mae aelodau'r panel yn gymwys i gael lwfansau ar gyfer: colled ariannol, teithio a chynhaliaeth, yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Gallant hefyd dderbyn tâl am unrhyw enillion a gollir o ganlyniad i fynychu panel apêl. Mae'r taliad hwn i'w wneud ar y cyfraddau a nodir ar gyfer

[4] Rheoliad 8 o Reoliadau 2005.

aelodau cyngor cymuned yn yr adroddiad blynyddol diweddaraf i gael ei gyhoeddi gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol[5].

2.15 Bydd y darpariaethau hyn yn gymwys pan drefnir panelau apêl naill ai gan yr awdurdod lleol neu gan gorff llywodraethu'r ysgol.

## Buddiannau aelodau panelau apêl

2.16 Mae paragraff 2.3 yn pennu'r bobl hynny a waherddir rhag bod yn aelod ar banel o dan Ddeddf 1998. Fodd bynnag, dan rai amgylchiadau, efallai na fyddai'n briodol i rywun ddod yn aelod, hyd yn oed os nad yw wedi'i wahardd rhag gwneud hynny o dan Reoliadau 2005. **Dylid** defnyddio crebwyll a synnwyr cyffredin wrth wneud dyfarniadau o'r fath. Ambell enghraifft o hyn fyddai lle bydd gan rywun fuddiant yng nghanlyniad apêl - er enghraifft, llywodraethwr unrhyw ysgol y gallai plant apelwyr aflwyddiannus fynd iddi, neu aelod panel sydd hefyd yn ymgeisydd aflwyddiannus i'r ysgol dan sylw. Enghraifft arall efallai fyddai rhiant sydd â phlentyn yn yr ysgol, ac, er nad yw wedi'i wahardd rhag bod yn aelod o'r panel, y gallai apelydd wrthwynebu iddo fod yno oherwydd y cysylltiad â'r ysgol.

2.17 **Dylid** gofalu rhag dangos tuedd, neu greu'r argraff o ddangos tuedd, wrth ddewis aelodau panel penodol. **Rhaid** eithrio unrhyw un sy'n briod ag apelydd, sy'n berthynas agos i apelydd, neu sy'n ymwneud ag apelydd (rhiant neu blentyn) rhag bod yn aelod o'r panel a fydd yn gwrando'i achos. Byddai hyn yn berthnasol hefyd i bobl sy'n cyflogi'r apelydd neu'n cael eu cyflogi ganddo. Hefyd, fel rheol, **ni ddylai** unrhyw un sy'n briod â rhywun sydd wedi'i wahardd rhag bod yn aelod o banel na rhywun sy'n berthynas agos iddynt neu'n ymwneud â hwy mewn modd arall fod yn aelod o'r panel ac, fel rheol, **ni ddylai** partneriaid mewn perthynas bersonol wasanaethu ar yr un panel. Yn gyffredinol, gallai unrhyw aelod o'r panel apêl y gwyddys fod ganddo farn benodol am yr apelydd – da neu ddrwg – gael ei ystyried yn rhywun nad yw'n ddiduedd. Os yw'n debygol y bydd apelydd yn codi unrhyw amheuaeth am natur ddiduedd unigolyn penodol, yna **ni ddylai** eistedd fel aelod o'r panel yn y gwrandawiad hwnnw.

2.18 Pan fydd aelodau panel yn cael eu papurau ar gyfer yr apêl, **rhaid** iddynt ddweud wrth glerc y panel os ydynt yn adnabod unrhyw un o'r apelwyr fel y gellir ystyried pa mor briodol yw iddynt fod yn aelod o'r panel. Mae'n bosibl mai dim ond ar ddiwrnod y gwrandawiad y bydd aelod o'r panel yn sylweddoli ei fod yn adnabod yr apelydd. O dan amgylchiadau o'r fath, **rhaid** i'r aelod o'r panel ddatgelu hynny. **Rhaid** gofyn i'r apelydd a yw'n fodlon y **dylid** bwrw ymlaen â'r apêl, ond os codir unrhyw bryderon, **rhaid** i'r aelod panel dan sylw ildio'i le a pheidio â chymryd rhan ym mhroses benderfynu'r apêl honno.

2.19 Pan fydd yn bosibl, mae'n arfer da rhoi gwybod i apelwyr ymlaen llaw beth yw enwau aelodau'r panel, ac ai fel aelod lleyg ynteu fel rhywun â phrofiad ym myd addysg y maent yn gwasanaethu, er mwyn iddynt allu codi unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglŷn â natur ddiduedd aelodau penodol o'r panel cyn y gwrandawiad ei

[5] Rheoliad 7 o Reoliadau 2005.

hun. Fodd bynnag, **dylid** hefyd dynnu sylw at y ffaith y gall aelodaeth y panel newid funud olaf os nad oes modd osgoi hynny e.e. oherwydd salwch.

## Sicrhau bod cworwm o aelodau ar y panel

2.20 Lle bydd panel â 5 aelod iddo wedi dechrau ystyried apêl a bod unrhyw un o'r aelodau'n methu â bwrw ymlaen neu fod rhaid iddo dynnu'n ôl, caiff y panel barhau i eistedd, ar yr amod nad oes llai na 3 aelod yn weddill a bod ganddo o leiaf 1 aelod lleyg ac 1 aelod addysg o hyd. Os nad oes, **rhaid** cynnull panel newydd i wrando'r apêl. Lle bydd panel yn dechrau gyda thri aelod, **ni chaiff** fwrw ymlaen os oes rhaid i un aelod ymadael, ac os felly **rhaid** llunio panel newydd er mwyn gwrando pob achos o'r newydd.

## 3. Rolau a chyfrifoldeb

3.1 **Rhaid** i bawb sy'n ymwneud â gwrandawiad derbyn fod yn gyfarwydd â'r Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion, a "gweithredu'n unol â" hwy, a **rhaid** iddynt fod wedi'u hyfforddi hyd at lefel briodol. Ceir manylion am y rolau a'r cyfrifoldebau penodol isod.

### Clerc y panel

3.2 **Rhaid** i bob panel gael gwasanaeth clerc. Nid yw'r clerc hwnnw'n aelod o'r panel ond mae ganddo rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod y ffeithiau perthnasol yn cael eu sefydlu, bod y rheoliadau'n cael eu dilyn bob amser a bod y gwrandawiad apêl yn deg.

3.3 **Ni chaiff** y clerc fod wedi chwarae rhan yn y penderfyniad sy'n destun yr apêl ac **ni chaiff** fod â buddiant ynddo. **Ni chaiff** clercod ymdrin â threfniadau derbyn fel rhan o'u cyflogaeth arferol. Fodd bynnag, **rhaid** i glercod ddeall y Cod hwn yn dda a hefyd ddeall y gyfraith sy'n ymwneud â threfniadau derbyn yn dda a **rhaid** eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a hwnnw'n cynnwys cyfraith cydraddoldeb. Onid yw hyn yn bosibl **rhaid** sicrhau bod cyngor cyfreithiol ar gael i'r panel. **Dylai** awdurdodau lleol a llywodraethwyr gan amlaf edrych y tu allan i'w staff eu hunain am bobl sydd â phrofiad perthnasol yn gweithio fel clerc pwyllgor proffesiynol neu gynghorydd cyfreithiol neu am bobl sydd â phrofiad yn cynnal ymchwiliadau neu wrandawiadau disgyblu. Caiff awdurdodau derbyn rannu clercod.

3.4 Tasgau allweddol y clerc yw:

- Gwneud y trefniadau gweinyddol angenrheidiol ar gyfer gwrandawiadau.
- Esbonio'r gweithdrefnau sylfaenol i'r apelwyr ac ymdrin ag unrhyw gwestiynau a all fod ganddynt, am y gweithdrefnau yn unig, ar ddechrau'r gwrandawiad.
- Sicrhau bod y ffeithiau perthnasol, fel y'u darperir gan yr apelydd a'r awdurdod derbyn, ill dau, yn cael eu cyflwyno a'u cofnodi yn y gwrandawiad.
- Bod yn ffynhonnell cyngor annibynnol ynglŷn â'r weithdrefn, y Codau a'r gyfraith ynglŷn â'r trefniadau derbyn (gan roi cyngor fel rheol yng ngŵydd pob parti sy'n ymwneud â'r apêl), a chan ymyrryd yn ddoeth i gynorthwyo'r panel gyda'r weithdrefn, os oes angen.
- Cofnodi'r achos, y presenoldeb, y penderfyniadau, canlyniadau'r pleidleisio a'r rhesymau. Nid oes rhaid i'r cofnod hwn fod yn gofnod gair am air, ond **rhaid** iddo fod yn gofnod clir a chynhwysfawr o'r holl bwyntiau a godir yn yr apêl, gan ei gwneud yn glir beth oedd barn y panel am y pwyntiau pwysig a godwyd gan yr apelwyr.
- Rhoi gwybod am benderfyniad y panel i bob parti yn ysgrifenedig.

3.5 Os bydd y panel yn ymneilltuo neu'n gwahodd y partïon i wneud hynny tra'i fod yn ystyried ei benderfyniadau, **rhaid** i'r clerc aros gyda'r panel ond dim ond at

ddiben cynnig cyngor ynglŷn â'r weithdrefn neu'r gyfraith. Gall y clerc gynorthwyo drwy gyfeirio at nodiadau tystiolaeth, a thrwy gofnodi penderfyniadau a'r rhesymau drostynt. Os cynigiwyd cyngor pellach, **dylai'r** clerc ystyried a oes angen ailadrodd y cyngor hwn wrth yr holl bartïon eraill a rhoi cyfle iddynt gynnig eu sylwadau arno.

## Y cadeirydd

3.6 Mae gan y cadeirydd ran ganolog sef cyfarwyddo'r achos a **rhaid** iddo allu rheoli'r gwrandawiad yn deg ac yn gadarn. Byddai profiad fel ynad, cadeirydd pwyllgor, uwch swyddog undeb neu rôl debyg yn werthfawr. **Dylai'r** cadeirydd geisio tawelu meddwl yr apelydd a sicrhau bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn modd anffurfiol ond bod strwythur iddo. **Dylai'r** cadeirydd ddechrau'r achos drwy gyflwyno pawb yn y gwrandawiad ac esbonio rôl y clerc. **Dylai'r** cadeirydd esbonio ar y dechrau bod y panel yn annibynnol ac os bydd yn cadarnhau'r apêl, y bydd rhaid i'r awdurdod derbyn gadw at y penderfyniad hwnnw. **Dylai'r** cadeirydd gloi'r gwrandawiad drwy ofyn i'r apelydd a yw wedi llwyddo i godi'r holl faterion yr oedd yn dymuno'u codi ac a oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffai eu gwneud.

## Aelodau'r panel

3.7 Mae angen i bob aelod ar y panel fod yn ymwybodol o drefn yr achos a chwarae rhan weithredol wrth holi'r swyddog sy'n cyflwyno a'r apelydd. **Ni chânt** ffafrio'r naill barti na'r llall a **dylent** fod yn ymwybodol bob amser eu bod yn gweithredu'n annibynnol oddi ar yr awdurdod lleol neu gorff llywodraethu'r ysgol, a'u bod yn cael eu gweld yn gweithredu felly. **Ni chaiff** aelodau'r panel fynegi barn bersonol yn ystod gwrandawiad na dadlau o blaid achos y naill barti na'r llall.

## Yr apelydd

3.8 Mae'r apelydd yn apelio ynghylch mater sy'n bwysig iawn i'w ddyfodol (yn achos person ifanc sy'n apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch derbyn i chweched dosbarth) neu ddyfodol ei blentyn. Pan na fydd apelydd neu gynrychiolydd y person hwnnw yn gyfarwydd â gweithdrefnau gwrando apêl derbyn, argymhellir bod Cadeirydd y panel yn mabwysiadu rôl "galluogi" yn yr achosion hyn i helpu rhieni a phobl ifanc i gyflwyno eu hachos. **Rhaid** i awdurdodau derbyn roi arweiniad a gwybodaeth briodol i apelwyr cyn y gwrandawiad i'w galluogi i baratoi eu hachos ar gyfer yr apêl. Mae gan apelwyr yr hawl i holi'r swyddog cyflwyno yn ystod yr achos. Mae rôl yr apelydd yn y gwrandawiad apêl yn un arbennig o anodd, a **dylai'r** panel bob amser gadw hyn mewn cof.

## Y swyddog cyflwyno

3.9 **Rhaid** i'r awdurdod derbyn ddarparu swyddog cyflwyno i ymddangos naill ai yn bersonol neu o bell (drwy gynhadledd ffôn neu fideo) i gyflwyno'r penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn/person ifanc a hynny mewn ffordd mor glir ag y bo modd, gan roi'r holl wybodaeth berthnasol. **Rhaid** i'r swyddog fod yn barod i ateb cwestiynau manwl am yr achos a wrandewir a chwestiynau am yr ysgol a'i

threfniadau derbyn, a bydd angen i'r swyddog fod yn bresennol drwy gydol y gwrandawiad er mwyn gallu gwneud hynny. **Rhaid** i'r swyddog cyflwyno fod wedi'i hyfforddi'n llawn yng ngweithdrefnau apelau derbyn.

3.10 **Dylai'r** swyddog cyflwyno fod yn ddigon parod i gyflwyno'r achos fel nad oes angen i un o gynrychiolwyr yr ysgol fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Fodd bynnag, gall pennaeth neu gynrychiolydd arall o'r ysgol fynychu o bryd i'w gilydd naill ai yn bersonol neu o bell, a dim ond pan fo angen i ateb cwestiynau a ofynnir iddynt am yr ysgol. **Ni ddylai** absenoldeb cynrychiolydd fod yn rheswm i ohirio trefnu'r gwrandawiad.

3.11 **Dylai'r** swyddog cyflwyno osgoi cyswllt â'r panel yn absenoldeb y partïon eraill.

# 4. Camau cyn y gwrandawiad apêl

## Yr hawl i apelio

4.1 Mae gan unrhyw riant (ac eithrio un y mae ei blentyn wedi'i wahardd yn barhaol o 2 ysgol) y gwrthodir lle i'w blentyn mewn ysgol, neu berson ifanc y gwrthodir lle iddo mewn chweched dosbarth ysgol, hawl statudol i apelio i banel apêl annibynnol (nid yw'r hawl hon i apelio'n ymestyn i geisiadau am addysg feithrin). Bydd gan rieni neu bobl ifanc hawl i apelio hefyd os cynigiwyd lle i blentyn neu berson ifanc ac y tynnwyd y cynnig hwnnw'n ôl.

4.2 Os gwrthodir lle i blentyn/person ifanc mewn ysgol/chweched dosbarth, **rhaid** rhoi'r rhesymau llawn, ar ffurf ysgrifenedig, i'r rhieni (a'r personau ifanc yn achos derbyn i chweched dosbarth), yn esbonio pam y bu'r cais yn aflwyddiannus, gan gyfeirio at y trefniadau derbyn a gyhoeddwyd ar gyfer yr ysgol, gan gynnwys ai oherwydd y cyfyngiad ar faint y dosbarth babanod y gwrthodwyd lle. **Rhaid** i'r llythyr roi gwybod iddynt am eu hawl i apelio, gan gynnwys manylion ynglŷn â sut mae apelio (gellir defnyddio ffurflen sydd wedi'i hargraffu'n barod) ac at bwy y dylid anfon y rhybudd eu bod am apelio. **Rhaid** hefyd roi manylion ynglŷn ag ymhle y mae rhagor o wybodaeth ar gael ac am yr hawl i ddod i'r gwrandawiad apêl. **Rhaid** pennu unrhyw ddyddiadau cau ar gyfer cyflwyno neu dderbyn gwybodaeth. Er y gall fod o gymorth nodi, yn enwedig yng nghyswllt apelau sy'n ymwneud â maint dosbarth babanod, o dan ba amgylchiadau prin y gallai'r panel gadarnhau apêl (gweler Atodiad C), **ni chaiff** y llythyrau hyn roi unrhyw awgrym ynglŷn â pha mor debygol yw'r apêl o lwyddo.

## Rhieni/personau ifanc yn hysbysu ei bod yn fwriad ganddynt apelio

4.3 **Rhaid** rhoi o leiaf 10 diwrnod gwaith i rieni/personau ifanc o'r dyddiad pan gânt eu hysbysu i'w cais fod yn aflwyddiannus i baratoi a chyflwyno'u hapelau ysgrifenedig. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth ynglŷn ag a yw'r cais am apêl wedi'u cyrraedd, **dylai** awdurdodau derbyn ystyried anfon cydnabyddiaeth. Os bydd rhieni/pobl ifanc yn cyflwyno apêl hwyr oherwydd amgylchiadau anodd neu oherwydd nad oeddent yn deall y gofynion, **ni chaiff** awdurdodau derbyn wrthod apêl hwyr heb reswm da. **Dylid** gwrando apêl hwyr yr un pryd ag y gwrandewir unrhyw apelau eraill ar gyfer ysgol benodol, neu cyn gynted ag y bo modd wedi hynny. Lle bynnag y bo modd, **dylai'r** panel apêl sy'n gwrando unrhyw apelau hwyr gynnwys yr un aelodau. **Ni chaniateir** cynnal gwrandawiadau cyn unrhyw ddyddiad cau a bennwyd ar gyfer cyflwyno apelau.

## Hysbysu apelwyr ynglŷn â dyddiad y gwrandawiad apêl

4.4 **Rhaid** rhoi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig i apelwyr ynglŷn â dyddiad y gwrandawiad apêl, onid ydynt wedi cytuno i gyfnod byrrach (os bydd apelwyr yn cytuno i gyfnod byrrach o rybudd, **dylent** gadarnhau hyn â chlerc y panel yn ysgrifenedig, neu drwy e-bost). Pan fydd y person ifanc a'i rieni yn apelio yn erbyn

penderfyniad, yn achos derbyn i chweched dosbarth, **rhaid** gwrando'r apelau hynny gyda'i gilydd.

## Gwybodaeth i apelwyr am apelau

4.5 Mae'n beth da i awdurdodau derbyn baratoi canllawiau i apelwyr ynglŷn ag apelau, ar sail eu gwybodaeth am eu hamgylchiadau lleol eu hunain, a rhoi'r rhain iddynt pan roddir gwybod bod y cais yn aflwyddiannus. **Dylai** hyn gynnwys canllawiau ar gynnal apelau o bell yn ôl yr angen. Efallai y byddai awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am drefnu apelau'n ystyried llunio set o ganllawiau ar y cyd i apelwyr yn eu hardal. **Dylai** rhywfaint o'r wybodaeth sydd yn y Cod hwn fod yn sail ar gyfer canllawiau o'r fath. Byddai cynnwys pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r broses apelio o gymorth hefyd. Mae'n arbennig o bwysig i awdurdodau lleol a llywodraethwyr roi gwybod i apelwyr, boed yr apelau'n cael eu cynnal o bell neu yn bersonol, fod ganddynt hawl i wneud sylwadau llafar yng ngwrandawiad eu hapêl (ond gweler paragraff 4.13), ac mai dyma'u cyfle i wneud yn siŵr bod y panel apêl yn gwbl ymwybodol o holl ffeithiau eu hachos cyn iddo benderfynu.

4.6 Mae'n arfer da gofyn i apelwyr cyn y gwrandawiad a oes ganddynt unrhyw ofynion arbennig y mae angen eu hystyried, er enghraifft, darparu dehonglydd/cyfieithydd. **Rhaid** i'r awdurdod lleol ofyn i'r apelydd p'un a yw am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwrandawiad, a threfnu gwasanaeth cyfieithu ar gais[6]. Lle bydd yr awdurdod derbyn yn ystyried cynnal apêl o bell, **rhaid** iddo sicrhau bod gan yr apelydd y dechnoleg angenrheidiol.

4.7 Wrth roi gwybod iddynt am ddyddiad y gwrandawiad apêl, **rhaid** i'r awdurdod derbyn wneud y canlynol:

- Gofyn i apelwyr ddarparu unrhyw ddogfennau, gwybodaeth a thystiolaeth y maent yn dymuno'u cyflwyno i'r panel i fod yn gefn i'w hachos cyn gynted ag y bo modd, ond gan roi gwybod iddynt y cânt gyflwyno gwybodaeth unrhyw bryd cyn y gwrandawiad.
- Ei gwneud yn glir a fydd unrhyw ohebiaeth gynharach rhwng yr apelydd a'r ysgol yn cael ei chynnwys yn awtomatig ym mhapurau'r panel, ynteu ai dim ond y dogfennau hynny y mae'r apelwyr wedi'u cyflwyno'n benodol ar gyfer y gwrandawiad apêl.
- Eu hysbysu ynglŷn ag ar ba sail yr ystyrir yr apêl, er enghraifft, drwy amlinellu'r cwmpas cyfyngedig sydd ar gyfer cadarnhau apêl ynglŷn â dosbarth babanod sy'n cynnwys 30 o ddisgyblion. Os nad yw'n glir ai ar sail maint y dosbarth babanod y mae'r apêl, ynteu ar sail anfantais arferol, **rhaid** cynghori'r apelwyr i baratoi ar gyfer y naill a'r llall.

[6] Safonau'r Gymraeg.

4.8 Er mwyn caniatáu i apelwyr baratoi ar gyfer y gwrandawiad apêl, **rhaid** i'r awdurdod derbyn roi'r wybodaeth a ganlyn hefyd iddynt o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad:

- Enwau aelodau'r panel a'r clerc, gan nodi y gallai'r rhain newid yn sgil amgylchiadau anochel, ac ym mha rinwedd y maent yn gwasanaethu (gweler paragraff 2.2). Mae hyn er mwyn rhoi'r cyfle i apelwyr (a phartïon eraill) godi unrhyw amheuon ynglŷn â natur ddiduedd aelodau penodol o'r panel, cyn y gwrandawiad apêl.
- Yr holl wybodaeth y mae'r apelwyr yn gwneud cais rhesymol amdani, wedi'i chyflwyno ar ffurf hawdd ei deall.
- Rhoi gwybod a oes unrhyw dystion wedi'u gwahodd i roi tystiolaeth yn y gwrandawiad (gweler paragraffau 4.17 i 4.19).

## Amserlen apelau derbyn

4.9 **Rhaid** i awdurdodau derbyn drefnu eu hamserlen apelau er mwyn i apelau a wneir yn ystod y broses derbyn a amserlennwyd gael eu clywed o fewn 30 diwrnod ysgol i'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer cyflwyno apelau. **Rhaid** cynnal gwrandawiadau apêl ar gyfer apelau a wneir y tu allan i'r broses derbyn a amserlennwyd o fewn 30 diwrnod ysgol i'r dyddiad pan fydd yr apêl yn cyrraedd ar ffurf ysgrifenedig. Yn ystod gwyliau'r haf **rhaid** i awdurdodau derbyn drefnu i gynnal eu hapelau cyn pen 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad pan fydd yr apêl yn cyrraedd ar ffurf ysgrifenedig.

4.10 Er mwyn osgoi oedi annerbyniol, efallai y byddai awdurdodau derbyn yn dymuno gwneud trefniadau ar y cyd i wrando apelau sy'n ymwneud â cheisiadau achlysurol. **Dylai** awdurdodau derbyn gyhoeddi amserlen digwyddiadau ymlaen llaw, gan gynnwys ym mha gyfnod y disgwylir cynnal apelau ar gyfer y broses derbyn a amserlennwyd.

4.11 Mae'n gymorth cynllunio dipyn ymlaen llaw er mwyn sicrhau mai 1 panel sy'n gwrando'r holl apelau ar gyfer ysgol benodol, onid oes rhesymau eithriadol pam na ellir gwneud hyn. Mae'n arfer da holi aelodau'r panel apêl a threfnu dyddiadau amodol a, phan fo apelau'n cael eu cynnal yn bersonol, lleoliadau ar gyfer gwrandawiadau ymhell cyn dyddiad y cynnig. Pan fydd union nifer yr apelau'n hysbys, gellir cadarnhau'r dyddiadau gydag aelodau'r panel. Mae bob tro'n bosibl na fydd modd i aelod o'r panel fod yn bresennol ar fyr rybudd oherwydd salwch neu am resymau eraill, a **dylai** awdurdodau derbyn gynnwys nifer o eilyddion posibl wrth flaengynllunio. Arfer da yw cynllunio ar y sail y bydd gennych fwy o apelau nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol, gan ei bod yn haws canslo trefniadau na threfnu gwrandawiadau ychwanegol.

4.12 Yn ôl y gyfraith, nid oes rhaid i rieni anfon eu plant i'r ysgol tan ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed ac mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn mynnu bod awdurdodau derbyn yn cytuno i geisiadau ar gyfer gohirio derbyn i ddosbarthiadau derbyn. **Rhaid** i banelau apêl sicrhau bod pob apêl a wneir o fewn y

broses derbyn a amserlennwyd yn cael eu gwrando ar yr un pryd, ni waeth ym mha dymor y disgwylir i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol.

## Presenoldeb a chynrychiolaeth

4.13 Awdurdod derbyn yr ysgol dan sylw sy'n gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer apelau pan fo lle mewn ysgol wedi'i wrthod. Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, **rhaid** i awdurdodau lleol roi sylw i ddyletswyddau sy'n ymwneud â safonau'r Gymraeg. Caiff awdurdodau derbyn wneud trefniadau i wrandawiadau apêl gael eu cynnal yn bersonol neu o bell (drwy gynhadledd ffôn neu fideo), neu gyfuniad o'r ddau ("hybrid"[7]). Caniateir gwrandawiadau apêl a gynhelir yn gyfan gwbl dros y ffôn dim ond pan na ellir defnyddio cynhadledd fideo am resymau'n ymwneud â chysylltedd neu hygyrchedd ac os yw'r apelydd a'r swyddog cyflwyno ill dau yn cytuno. Ni waeth pa fforwm a ddewisir, **rhaid** i banelau apêl roi'r cyfle i apelwyr gyflwyno'u hachos ar lafar[8] ac iddynt egluro neu ategu eu hapêl ysgrifenedig. Pan fo apelydd yn peidio â dod i'r gwrandawiad neu'n methu bod yn bresennol ac nad yw'n ymarferol cynnig dyddiad arall, caniateir i'r apêl fynd rhagddo ac i wneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd a **rhaid** egluro hyn i'r apelydd. **Rhaid** i banelau apêl gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[9] pan fyddant yn ystyried presenoldeb apelydd (naill ai yn bersonol neu o bell) a'i gynrychiolaeth yn ystod yr apêl.

4.14 **Rhaid** i'r awdurdod derbyn ddarparu swyddog cyflwyno i ymddangos naill ai yn bersonol neu o bell (drwy gynhadledd ffôn neu fideo) i gyflwyno'r penderfyniad i beidio â derbyn y plentyn ac i ateb cwestiynau manwl am yr achos a wrandewir ac am yr ysgol. Os na fydd swyddog cyflwyno yn bresennol ar ddiwrnod yr apêl, gall y panel ddewis datrys yr achos drwy ddefnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr awdurdod derbyn os yw'n fodlon na fydd gwneud hynny yn rhoi'r apelydd dan anfantais.

4.15 Caiff cyfaill, cynghorwr, dehonglydd/cyfieithydd neu arwyddwr[10] ddod gyda'r apelydd neu ei gynrychioli a chaiff hwnnw siarad ar ei ran. Gellid defnyddio gwasanaeth eirioli annibynnol petai angen. **Ni ddylai** fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer apelau derbyn, er bod rhwydd hynt i apelwyr gael cynrychiolaeth o'r fath os dymunant. Fodd bynnag, **rhaid** i banelau ofalu nad yw apelwyr heb gynrychiolaeth yn cael eu trin yn wahanol i'r apelwyr y mae ganddynt gynrychiolaeth. Os yw'n fwriad gan apelwyr gael eu cynrychioli neu ddod â chyfaill neu gynghorwr, neu ddehonglydd/cyfieithydd neu arwyddwr gyda hwy, **dylent** roi gwybod i'r clerc ymlaen llaw. **Dylai** awdurdodau derbyn ddarparu cyfleusterau dehongli/cyfieithu ar y pryd neu arwyddo os gwneir cais am hynny.

---

[7] Ystyr gwrandawiad hybrid yw gwrandawiad lle mae rhai o'r bobl sy'n rhan ohono yn ymuno yn bersonol a rhai ohonynt yn ymuno o bell (drwy gynhadledd ffôn neu fideo).

[8] Paragraff 1(6) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005.

[9] Mae paragraffau A15 i A24 o Atodiad A yn amlinellu dyletswyddau panelau apêl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

[10] Paragraff 1(6) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005.

4.16 **Rhaid** rhoi gwybod i apelwyr **na chaiff** aelod etholedig o'r awdurdod lleol, swyddog i'r awdurdod lleol, Aelod o'r Senedd na gwleidydd lleol ddod gyda nhw, gan y gallai hyn arwain at wrthdaro buddiannau, annhegwch i apelwyr eraill a rhoi gormod o bwysau ar y panel.

## Tystiolaeth a thystion

4.17 Mae gan apelwyr a swyddogion cyflwyno'r hawl i benderfynu sut mae trefnu eu cyflwyniad ond nid yw'n debygol y bydd angen i dystion fod yn bresennol. Gall y panel ei ystyried yn briodol caniatáu i dystion nad ydynt yn bresennol roi tystiolaeth, ar yr amod ei bod yn berthnasol ac nad yw'n ailadroddus. Caiff panelau (gan roi rhybudd i'r apelwyr ymlaen llaw) ofyn iddynt gadarnhau gwybodaeth a gafwyd am faterion megis cyflwr meddygol neu eu cyfeiriad. **Ni ddylai** fod angen i **bennaeth** neu **lywodraethwr** fod yn dyst, gan mai gwaith y swyddog cyflwyno yw darparu gwybodaeth am yr ysgol.

4.18 Os yw'r plentyn yn dymuno rhoi tystiolaeth yn y gwrandawiad, **dylid** trefnu er mwyn i'r plentyn allu gwneud hynny a **dylai'r** panel ymddwyn mewn modd sy'n adlewyrchu bod plentyn yn bresennol. Efallai y bydd hefyd angen darparu hyfforddiant mewn sgiliau cadeirio priodol ar gyfer rheoli gwrandawiadau pan fydd plant yn bresennol.

4.19 Y panel sydd i benderfynu a **ddylai** unrhyw dyst, ar ôl rhoi tystiolaeth, aros yno tra bo gweddill yr achos yn cael ei gyflwyno. Gallai hyn fod o gymorth i wneud yr achos yn fwy anffurfiol, ond ni fydd bob tro'n ddymunol.

## Lleoliad yr apêl

4.20 Pan fo gwrandawiadau apêl yn cael eu cynnal yn bersonol, **rhaid** defnyddio lleoliad niwtral i wrando'r apêl, ond gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'u hadeiladau eu hunain os nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith staff derbyn. **Rhaid** i ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir drefnu lleoliad ar wahân i'r ysgol, ac anogir awdurdodau lleol i helpu i ddarparu lleoliad addas, er mwyn helpu ysgolion a lleihau costau. **Rhaid** i'r arian a ddirprwyir i awdurdodau derbyn ar gyfer apelau dalu treuliau fel hyn. **Rhaid** i'r lleoliadau ar gyfer gwrandawiadau apelau a gynhelir yn bersonol:

- fod yn hygyrch i'r apelwyr;
- bod wedi'u harwyddo'n ddigonol;
- bod yn fannau y gellir eu cyrraedd ar gludiant cyhoeddus;
- bod yn hwylus i bobl ag anableddau (gan ystyried darparu lleoedd i barcio car);
- bod â lle aros addas i'r apelwyr, sy'n eu cadw ar wahân i'r panel a'r swyddog cyflwyno;
- bod ag ystafell addas i'r swyddog cyflwyno aros ar wahân i'r panel cyn yr apelau a rhyngddynt.

4.21 Pwyntiau eraill i'w hystyried:

- **rhaid** bod lle ar gael i'r partïon a'u cynrychiolydd neu eu cynghorwr gynnal trafodaethau preifat;
- **ni ddylid** tarfu ar y gwrandawiad gan sŵn o'r tu allan neu gan bobl yn dod i mewn i'r ystafell;
- **ni ddylai'r** sawl sy'n aros y tu allan allu clywed yr hyn sy'n digwydd ar y tu mewn;
- **dylai** fod strwythur i'r ffordd y mae'r ystafell wedi'i gosod, a dylai fod yn gyfforddus ac yn anffurfiol;
- **dylid** darparu dŵr yfed neu luniaeth arall;
- **dylai'r** toiledau fod yn gyfleus, gan gynnwys toiledau i bobl anabl;
- **dylai** platiau enwau fod ar gael ar gyfer y panel a'r clerc;
- **dylid** caniatáu digon o amser ar gyfer y gwrandawiad, yn enwedig os oes dehonglydd/cyfieithydd yn bresennol i weithredu ar ran yr apelwyr.

## "Lobïo" aelodau'r panel

4.22 Er mwyn bod yn deg i'r apelwyr eraill, **ni chaniateir** cynnwys aelodau mewn unrhyw drafodaethau gydag apelwyr cyn eu gwrandawiad. **Dylent** atgoffa apelwyr y **dylid** cyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol y maent yn dymuno'i hychwanegu at eu hapêl ar ffurf ysgrifenedig cyn y gwrandawiad ac y cânt y cyfle i ddweud eu dweud pan gynhelir y gwrandawiad. At hynny, **ni chaniateir** cynnwys aelodau'r panel mewn trafodaethau ag aelodau'r awdurdod derbyn cyn y gwrandawiad ac **ni ddylent** gael egwyl lluniaeth gyda chynrychiolwyr yr awdurdod derbyn yn ystod y diwrnod. Mae'r un ystyriaethau'n berthnasol i glercod, ac eithrio lle bydd yr apelydd neu gynrychiolydd yr awdurdod derbyn yn dymuno gofyn cwestiwn ynglŷn â'r weithdrefn.

## Paratoi a chyflwyno tystiolaeth gan yr awdurdod derbyn cyn y gwrandawiad

4.23 O leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad (onid yw'r apelwyr wedi ildio'u hawl i gyfnod rhybudd 14 diwrnod ynglŷn â'u hapêl) - gweler paragraff 4.4 - **rhaid** i'r awdurdod derbyn roi'r dogfennau a ganlyn i glerc y panel apêl ac i'r apelwyr (caniateir anfon y dogfennau ar ffurf electronig, ond dim ond os bydd pob parti dan sylw'n cytuno i hynny):

- Datganiad ysgrifenedig yn crynhoi sut y mae'r trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol yn berthnasol i gais yr apelydd, gydag unrhyw wybodaeth gefndir berthnasol ynghyd ag unrhyw ddogfennau y mae wedi dibynnu'n sylweddol arnynt (megis ffurflen gais yr apelydd neu eirdaon gan weinidogion crefyddol).
- Datganiad ysgrifenedig yn crynhoi'r rhesymau dros y penderfyniad, gan esbonio sut y byddai derbyn plentyn/person ifanc ychwanegol yn anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon boed yr awdurdod derbyn yn amddiffyn ei benderfyniad ar sail deddfwriaeth maint

dosbarthiadau babanod ai peidio. **Dylai** unrhyw ddatganiad yn cyfeirio at adeiladau, maint dosbarthiadau, capasiti ac ati gael ei ategu gan wybodaeth ysgrifenedig ffeithiol megis profforma cyfrifo capasiti'r ysgol, a chynllun yn dangos trefn yr ystafelloedd dosbarth, gan nad oes modd mynd ag aelodau panelau ar 'deithiau tywys' o gwmpas ysgolion er mwyn iddynt asesu hyn drostynt eu hunain, oherwydd y gallai hynny wneud i bobl amau eu hannibyniaeth ac arwain at honiadau o lobïo.

- Copïau o unrhyw wybodaeth neu ddogfennau sydd i'w cyflwyno i'r panel yn y gwrandawiad, gan gynnwys unrhyw beth sydd wedi'i gyflwyno gan yr apelwyr erbyn hynny.

4.24 **Ni ddylai** fod unrhyw sail i'r awdurdod derbyn gyflwyno gwybodaeth newydd sylweddol yn yr apêl.

4.25 **Rhaid** i'r awdurdod derbyn ddarparu'r holl wybodaeth y bydd yr apelwyr yn gwneud cais rhesymol amdani, gan gynnwys profforma cyfrifo capasiti ddiweddar a gwybodaeth ffeithiol arall am yr ysgol, er mwyn iddynt allu cwestiynu achos yr awdurdod derbyn. Caiff apelwyr gyflwyno unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol sydd, yn eu barn hwy, yn gefn i'w hachos. Nid yw rôl y clerc yn cynnwys didoli'r hyn a all fod, yn eu barn hwy, yn ddeunydd amhriodol; mater i'r panel yw penderfynu a ddylid rhoi sylw i'r hyn a gyflwynir ai peidio.

4.26 **Rhaid** i'r clerc sicrhau bod yr holl ddogfennau a restrir ym mharagraff 4.23 yn cael eu hanfon at aelodau'r panel drwy'r post neu o law i law, 3 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad fan leiaf.

4.27 Cyn y gwrandawiad, **rhaid** i'r clerc roi gwybod i'r apelwyr ac i'r swyddog cyflwyno beth fydd trefn y busnes (gweler y drefn a awgrymir ym mharagraff 5.6).

# 5. Y gwrandawiad apêl

## Natur y gwrandawiad

5.1 **Rhaid** i'r panelau apêl weithredu'n unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol, a **rhaid** seilio'r ffordd y cynhelir gwrandawiadau ar degwch a, chyn belled ag y bo modd, geisio creu awyrgylch anffurfiol. Bydd yn anodd creu awyrgylch anffurfiol, er enghraifft, os recordir y gwrandawiad ar dâp, a **dylid** osgoi gwneud hyn ac eithrio lle y gallai hynny fod o gymorth i apelydd sydd ag anabledd.

5.2 **Rhaid** i awdurdodau derbyn sicrhau y caiff gwrandawiadau apêl eu cynnal yn breifat[11] ac yng ngŵydd pob aelod o'r panel a phob parti boed hynny yn bersonol neu drwy gysylltiad o bell. **Ni chaniateir** gadael un parti ar ei ben ei hun gyda'r panel, boed hynny yn bersonol neu drwy gysylltiad o bell, gyda'r llall yn absennol. Pan fo 1 parti neu ragor yn methu bod yn bresennol neu wedi peidio â dod i'r gwrandawiad, **rhaid** i'r clerc aros, naill ai yn bersonol neu drwy gysylltiad o bell, gyda'r panel a'r parti arall bob amser. Ceir arweiniad manylach am natur gwrandawiadau apêl, gan gynnwys egwyddorion cyfiawnder naturiol, yn Atodiad B i'r Cod hwn.

5.3 Pan fo gwrandawiadau apêl yn cael eu cynnal o bell, **rhaid** i awdurdodau derbyn fod wedi'u bodloni y gall y partïon gyflwyno eu hachosion yn llawn a bod gan bawb sy'n cymryd rhan fynediad at gyfleusterau fideo neu ffôn gan ganiatáu iddynt gymryd rhan yn y gwrandawiad bob amser.

5.4 Pan fo gwrandawiadau hybrid yn cael eu cynnal, **rhaid** i awdurdodau derbyn gydymffurfio â pharagraffau 5.2 a 5.3.

5.5 Pa bynnag fformat fydd i'r apêl, **rhaid** i'r awdurdodau derbyn fod wedi'u bodloni y gall yr apêl gael ei chlywed mewn modd teg a thryloyw.

## Trefn y gwrandawiad

5.6 Dyma'r drefn a awgrymir:

- achos yr awdurdod derbyn;
- yr apelwyr yn holi.

(Oni phrofir anfantais, **rhaid** i'r gwrandawiad (yn achos apêl sengl) ddod i ben ar y cam hwn a **rhaid** dweud wrth yr apelwyr i'w hapêl fod yn llwyddiannus).

- achos yr apelydd;
- yr awdurdod derbyn yn holi;
- yr awdurdod derbyn yn crynhoi;

[11] Ac eithrio yng ngham cyntaf apelau sawl-achos mewn grŵp (gweler paragraff 5.21) nes bod pob apêl wedi cael ei chlywed.

- yr apelydd yn crynhoi.

5.7 Ar ddechrau'r gwrandawiad, **rhaid** i gadeirydd y panel groesawu'r partïon a chyflwyno aelodau'r panel a'r clerc. **Rhaid** i'r cadeirydd hefyd gyflwyno'r swyddog cyflwyno a'r apelwyr, gan drin y naill a'r llall yn yr un modd. Hyd yn oes os yw'r panel yn gyfarwydd â'r swyddog cyflwyno am iddo fod mewn sawl gwrandawiad, **dylid** gochel rhag rhoi unrhyw argraff bod y panel a'r swyddog cyflwyno'n cydweithio. **Dylai** cadeirydd y panel esbonio'r weithdrefn yn glir ac yn syml gan roi manylion y materion y bydd y panel yn mynd i'r afael â hwy ac ym mha drefn. **Dylid** hefyd egluro'r broses dau gam (gweler paragraff 5.17) neu gwmpas cyfyngedig apêl ar sail maint dosbarth babanod, yn glir i'r apelydd, fel sy'n briodol. **Dylai'r** cadeirydd esbonio bod y panel yn gorff annibynnol ac os bydd yn cadarnhau apêl yr apelwyr, y bydd rhaid i'r awdurdod derbyn lynu wrth y penderfyniad hwnnw.

5.8 Caiff aelodau'r panel ofyn cwestiynau unrhyw bryd os ydynt yn dymuno cael eglurhad ynglŷn â'r hyn a ddywedir neu os oes angen gwybodaeth arnynt er mwyn penderfynu. Ni **ddylai** aelodau'r panel byth geisio ateb cwestiynau ar ran y swyddog cyflwyno, gan y gallai hyn roi'r argraff eu bod yn cydweithio.

5.9 Os codir materion newydd sylweddol am y tro cyntaf yn y gwrandawiad, mae'n bosibl y bydd angen gohirio'r gwrandawiad er mwyn i unrhyw barti y mae hyn yn peri syndod iddynt gael amser i ystyried y materion dan sylw. **Dylid** hysbysu rhieni, os ydynt yn cyflwyno gwybodaeth yn yr apêl y mae angen ei gwirio, y gallai fod rhaid i'r apêl ailymgynnull ar ôl ymchwilio i'r materion a godir.

5.10 Mae'n bosibl y bydd angen addasu'r weithdrefn mewn apelau sawl-achos (gweler paragraffau 5.21 i 5.25).

## Materion y mae'n ofynnol, yn ôl rheoliadau ac yn ôl y Cod hwn, i'r panel apêl eu hystyried

### Hoff ddewis rhieni

5.11 **Rhaid** i banelau apêl ystyried dyletswydd gyffredinol awdurdod derbyn i gydymffurfio â hoff ddewis rhiant (neu hoff ddewis person ifanc yn achos derbyn i chweched dosbarth) yn amodol ar yr eithriad a nodir ym mharagraff 5.12. **Rhaid** iddynt hefyd ystyried a wrthodwyd lle ar gam, neu o ganlyniad i drefniadau derbyn sy'n mynd yn groes i'r darpariaethau gorfodol yn y Cod Derbyn i Ysgolion a'r ddeddfwriaeth.

5.12 **Rhaid** i awdurdodau derbyn gydymffurfio â cheisiadau i dderbyn ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Lle byddai derbyn y plentyn yn anfanteisiol i'r ddarpariaeth gyffredinol o addysg effeithlon neu'r defnydd effeithlon o adnoddau. (Ni chaiff awdurdodau derbyn wrthod derbyn plant neu bersonau ifanc i unrhyw grŵp blwyddyn y derbynnir disgyblion i'r ysgol iddo fel rheol ar y seiliau

hyn oni fydd nifer y ceisiadau am leoedd yn y grŵp blwyddyn perthnasol hwnnw'n fwy na nifer derbyn yr ysgol.) Gall anfantais godi yn sgil camau y mae gofyn eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod (gelwir hyn yn anfantais maint dosbarth - gweler paragraffau 5.19 a 5.20 ac Atodiad C).

- Lle derbynnir disgyblion i'r chweched dosbarth yn llwyr ar sail gallu neu ddawn arbennig ac y byddai derbyn disgybl yn anghydnaws â'r trefniadau derbyn ar sail dethol fel hyn.
- Lle bydd ysgol breswyl a gynhelir gan y wladwriaeth wedi pennu niferoedd derbyn ar wahân ar gyfer disgyblion dydd a disgyblion preswyl a bod ganddi fwy o ymgeiswyr ar gyfer y naill gategori neu'r llall nag sydd o leoedd, er y gall fod lleoedd ar gael yn y categori arall.
- Lle bydd y plentyn wedi'i wahardd o ddwy ysgol neu ragor a'r gwaharddiad diweddaraf wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Nid yw hyn yn berthnasol i blant o dan oedran ysgol gorfodol, disgyblion sydd wedi'u hailddderbyn ar ôl eu gwahardd, neu'r rheini a fyddai wedi'u hailddderbyn petai'r corff llywodraethu a oedd yn adolygu'r achos neu'r panel apêl ar gyfer gwaharddiadau'n ei hystyried yn ymarferol gwneud hynny o dan yr amgylchiadau. Ystyrir gwaharddiad parhaol yn waharddiad sy'n dechrau ar y diwrnod ysgol cyntaf pan fydd y pennaeth wedi dweud wrth y disgybl am beidio â mynychu'r ysgol.

**Maint dosbarthiadau babanod**

5.13 Yn ôl y cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau, gydag eithriadau cyfyngedig penodol, ni chaiff dosbarthiadau babanod (Blwyddyn derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) gynnwys mwy na 30 disgybl. Disgrifir yr eithriadau cyfyngedig yn fanwl ym mharagraff 3.48 y Cod Derbyn i Ysgolion. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng deddfwriaeth maint dosbarthiadau babanod a niferoedd derbyn, am y gallai anfantais arferol godi ar adegau pan na fyddai anfantais maint dosbarth o bosibl yn codi.

5.14 Nid yw paragraffau 5.19 a 5.20 ac Atodiad C ond yn ymdrin ag apelau lle mae awdurdod derbyn wedi gwrthod derbyn plentyn i ysgol am ei fod yn credu y byddai'r plentyn ychwanegol yn anfanteisiol i faint y dosbarth[12]. Hynny yw, yn anfanteisiol i ddarparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon o ganlyniad i'r mesurau perthnasol y byddai eu hangen i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfyngu ar faint dosbarthiadau babanod. Fodd bynnag, mewn perthynas â'r flwyddyn derbyn ni ellid dweud y byddai anfantais o'r fath yn codi oni bai y byddai'n golygu bod nifer y disgyblion wedyn yn uwch na nifer derbyn yr ysgol.

5.15 Ychydig iawn o le sydd i banel apelau derbyn gadarnhau apêl yn erbyn gwrthod derbyn plentyn os yw'r awdurdod derbyn wedi gwrthod lle ar sail anfantais maint dosbarth. Gall panel apêl gadarnhau apêl derbyn **dim ond** pe byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle petai'r trefniadau derbyn wedi cael eu gweithredu'n gywir, **neu** os nad yw'r trefniadau yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac y byddai lle wedi cael ei

[12] Y Cod Derbyn i Ysgolion, paragraffau 3.45 i 3.50.

gynnig pe baent yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, **neu** os nad oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol yn ei wneud o dan amgylchiadau'r achos. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad C.

5.16 Er nad oes deddfwriaeth yn cyfyngu dosbarthiadau o ddisgyblion oedran cynradd hŷn (y cyfeiriwyd atynt cyn hyn fel disgyblion Cyfnod Allweddol 2) i 30 neu lai, dyma darged Llywodraeth Cymru ar gyfer maint dosbarthiadau.

## Penderfynu ar apelau heblaw apelau maint dosbarthiadau babanod

### Proses dau gam

5.17 **Rhaid** dilyn proses dau gam ym mhob apêl 'anfantais' ac eithrio lle bydd anfantais maint dosbarth dan sylw. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio'r camau a'r amgylchiadau pan fo **rhaid** cadarnhau apelau.

5.18 Barn y llysoedd yw mai dyma'r ddau gam gwahanol y **dylid** eu dilyn:

1. **cam ffeithiol** er mwyn i'r panel:

   a) ystyried a yw'r trefniadau derbyn a gyhoeddwyd yn cydymffurfio â gofynion mandadol y Cod Derbyn i Ysgolion a Rhan 3 o Ddeddf 1998.

   **Rhaid** i'r panel apêl gadarnhau'r apêl yn ystod y cam cyntaf os nad yw'n meddwl bod trefniadau derbyn yr ysgol yn cydymffurfio â gofynion mandadol y Cod Derbyn i Ysgolion na Rhan 3 o Ddeddf 1998, ac os yw'n meddwl y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe baent wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

   b) ystyried a gafodd trefniadau derbyn a oedd yn cydymffurfio eu rhoi ar waith yn gywir ac mewn modd diduedd yn yr achos(ion) dan sylw.

   **Rhaid** i'r panel apêl gadarnhau'r apêl yn ystod y cam cyntaf lle na chafodd y trefniadau derbyn eu rhoi ar waith yn gywir ac mewn modd diduedd ac y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle pe baent wedi'u rhoi ar waith yn gywir.

   c) penderfynu a fyddai 'anfantais' yn codi mewn gwirionedd pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei dderbyn.

   **Rhaid** i'r panel apêl gadarnhau'r apêl yn ystod y cam cyntaf os nad yw wedi ei fodloni yn ystod y cam cyntaf y byddai anfantais pe bai'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei dderbyn i'r ysgol. Os nad oes ond un apêl ar gyfer yr ysgol, **rhaid** i'r panel ganiatáu'r apêl a

pheidio â bwrw ymlaen â’r ail gam (**ond** os oes sawl apêl ar gyfer yr un ysgol, gweler paragraffau 5.21 i 5.25).

**Rhaid** i’r panel apêl gyfeirio’n ddi-oed at yr awdurdod lleol a’r awdurdod derbyn (os yw’r apêl ar gyfer ysgol sy’n gweithredu fel ei awdurdod derbyn ei hun) unrhyw agweddau ar y trefniadau derbyn y mae’n nodi eu bod yn anghyfreithlon.

2. **cam tafoli** i’r panel ddefnyddio’i grebwyll, gan bwyso a mesur i ba raddau y mae anfantais yn codi a grym dadl yr apelydd, cyn penderfynu.

Pan fo modd i’r awdurdod derbyn fodloni’r panel apêl y byddai anfantais, **dylai’r** panel apêl fwrw ymlaen i’r ail gam ac ystyried rhesymau’r apelydd dros ffafrio’r ysgol benodol honno, gan gynnwys yr hyn y gall yr ysgol honno ei gynnig i’r plentyn a’r hyn na all yr ysgol a ddyrannwyd nac ysgolion eraill ei gynnig. Bydd angen i’r panel ystyried y canlyniadau ehangach ar gyfer yr awdurdod derbyn os cydymffurfir â dymuniadau’r apelydd a pha mor ddifrifol y byddai’r canlyniadau hynny i’r awdurdod ac i blant/personau ifanc eraill.

Mae rhwydd hynt i’r awdurdod derbyn dan sylw gyflwyno, fel rhan o’i dystiolaeth i’r panel, y ffaith bod y plentyn neu’r person ifanc dan sylw wedi cael cynnig lle mewn ysgol arall. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol lle trafodir y pellter rhwng y cartref a'r ysgol. Yn yr un modd, mae rhwydd hynt i’r apelydd ddatgan unrhyw resymau pam y byddai ysgol arall yn anaddas neu’n llai addas.

**Ystyried anfantais**

5.19 Er mwyn pennu a oes anfantais ai peidio, bydd y panel am ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y nifer derbyn a nodwyd gan yr ysgol sydd yn deillio o gapasiti’r ysgol, a hwnnw wedi’i gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla asesu capasiti Llywodraeth Cymru. Esbonnir y dull yn y ddogfen ganllaw ‘Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru’. Mae asesu capasiti’n ystyried yr amrywiaeth eang o arddulliau addysgu a chynlluniau ystafelloedd a geir mewn ysgolion ledled y wlad. O dan amgylchiadau cyfyngedig, ac ar ôl ymgynghori’n lleol, caniateir i awdurdodau derbyn bennu nifer is na’r nifer a bennir drwy asesu capasiti, er enghraifft, os yw’r ysgol wedi'i rhannu dros fwy nag un safle a'i bod yn briodol gwneud hynny. Nid rôl y panel yw ailasesu capasiti’r ysgol gan y dylai hyn fod wedi'i gytuno’n lleol, ar sail asesiad gwrthrychol o'r lle sydd ar gael. Wrth benderfynu a fyddai anfantais ai peidio **dylai’r** panel ystyried y canlynol:

- Yr effaith a gâi derbyn disgyblion ychwanegol ar yr ysgol o ran trefniadaeth a maint y dosbarthiadau, y staff addysgu sydd ar gael a’r effaith ar y disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol.
- Yr effaith a gâi derbyn disgyblion ychwanegol ar ysgolion eraill yn yr ardal a ph’un a fyddai hyn yn anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau’n effeithlon.
- Yr effaith a gâi derbyn disgybl ychwanegol ar yr ysgol yn y flwyddyn bresennol a blynyddoedd dilynol wrth i’r grŵp blwyddyn symud drwy’r ysgol.

- Unrhyw newidiadau sydd wedi'u gwneud i adeiladau neu drefniadaeth ffisegol yr ysgol ers i nifer derbyn gael ei bennu'n wreiddiol ar gyfer y grŵp blwyddyn perthnasol.
- Effaith unrhyw brotocolau lleol a gytunwyd gan y Fforwm Derbyn.

5.20 O ran ysgolion newydd sy'n gwasanaethu datblygiad tai newydd, **dylai'r** panel ystyried, er y gallai ymddangos bod gan ysgolion o'r fath leoedd dros ben, y gall yr awdurdod derbyn fod wedi pennu niferoedd derbyn is i gychwyn ar gyfer y flwyddyn gyntaf a blynyddoedd dilynol, ac y byddai wedi gwneud hynny'n glir yn y cynigion statudol a gyhoeddwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer yr ysgol newydd. Bydd hyn fel rheol yn digwydd pan fydd yr awdurdodau derbyn yn bwriadu cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael fesul cam dros gyfnod. Mae'n bwysig bod swyddogion cyflwyno'n tynnu sylw at y materion hyn wrth ddatgan eu hachos, gan esbonio'n glir fod angen cyflwyno'r nifer derbyn fesul cam ac effeithiau'r cynlluniau hynny ar nifer mawr o blant a dderbynnir, er enghraifft, pan nad oes digon o arian wedi'i neilltuo i'r ysgol ar gyfer yr athrawon ychwanegol y bydd eu hangen.

**Apelau sawl-achos**

5.21 Weithiau, bydd gofyn i banelau apêl ymdrin ag apelau gan nifer o apelwyr mewn perthynas â'r un ysgol. O dan yr amgylchiadau hyn, **dylai** 1 panel apêl, a hwnnw'n cynnwys yr un aelodau i gyd, ystyried pob un o'r apelau. **Dylid** trefnu amserlenni apelau er mwyn sicrhau bod modd gwneud hyn (gweler hefyd baragraffau 4.9 i 4.12) ar gyfer ceisiadau sy'n cyrraedd yn ystod y broses derbyn a amserlennwyd.

5.22 Os gwrandewir apelau sawl-achos, **ni chaniateir** penderfynu ynglŷn ag achosion unigol nes bod pob apelydd wedi cael cymryd rhan yn ystod cam 1 a cham 2 y broses, neu fe allai hynny arwain at anghyfiawnder. Mae'n bwysig bod clerc y panel yn cadw nodiadau'n ofalus o dan yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, mae angen i banelau apêl ystyried amgylchiadau lle bydd apelydd yn gofyn am gael ei glywed yn ddiweddarach na'r amser a drefnwyd. Os yw'r bwlch yn sylweddol, efallai na fydd yn rhesymol gohirio'r penderfyniadau ar gyfer y mwyafrif.

5.23 Os oes amgylchiadau eithriadol, a bod mwy nag 1 panel yn gorfod ystyried apelau ar gyfer yr un ysgol, **rhaid** i bob panel benderfynu drosto'i hun yn gwbl annibynnol, gan mai dim ond yr aelodau sy'n gwrando'r apelau a gaiff benderfynu, a dim ond ar sail y dystiolaeth a gyflwynir yn y gwrandawiad apêl yng ngŵydd y ddau barti.

5.24 Fel sy'n wir am apelau eraill, gwrandewir apelau sawl-achos mewn dau gam:

**Yn gyntaf: rhaid** i'r panel asesu:

a) a fyddai derbyn pob apelydd yn anfanteisiol o ran addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, a

b) a fyddai pob plentyn neu berson ifanc wedi cael cynnig lle petai'r trefniadau derbyn wedi eu gweithredu'n gywir.

Os bydd y panel yn canfod na fyddai derbyn apelwyr yn peri anfantais neu y byddent wedi cael cynnig lle petai'r trefniadau derbyn wedi eu gweithredu'n gywir, **rhaid** cadarnhau eu hapêl.

Os bydd y panel yn penderfynu y gellid derbyn ychydig yn rhagor o blant neu bobl ifanc heb i hynny fod yn anfanteisiol i'r ysgol, yna **rhaid** iddo benderfynu faint y gellid eu derbyn a chaniatáu apelau hyd at y nifer hwnnw. Wrth ystyried pa apelau i'w caniatáu, **rhaid** i'r panel yn gyntaf dderbyn y rheini y dylid bod wedi'u derbyn petai'r trefniadau derbyn wedi eu gweithredu'n gywir, ac yna, ystyried y ffactorau eraill yn achos yr apelydd unigol er mwyn ystyried unrhyw resymau cryf a gyflwynir gan yr apelydd ar gyfer ei dderbyn.

Os canfyddir y byddai anfantais, ac os oes rhagor o apelwyr, **rhaid** i'r panel symud i ail gam yr apêl: sef penderfynu a oes unrhyw un o achosion yr apelwyr unigol sy'n pwyso'n gryfach na'r anfantais.

**Yn ail:** os bydd y panel yn penderfynu y byddai derbyn plant neu bersonau ifanc ychwanegol yn arwain at anfantais, **rhaid** iddo ystyried, ar gyfer pob achos unigol, a yw sail yr apelydd dros gael ei dderbyn i'r ysgol yn pwyso'n gryfach na'r anfantais honno. **Nid** yw hyn yn golygu cymharu achosion yr apelwyr o gwbl.

Fodd bynnag, os oes sawl achos sy'n gryfach na'r anfantais i'r ysgol ac yn haeddu cael lle, ond bod y panel yn penderfynu na allai'r ysgol ymdopi â'r nifer hwnnw o apelau llwyddiannus, yna **rhaid** i'r panel gymharu achosion a phenderfynu pa apelau i'w cadarnhau.

5.25 Efallai y bydd panelau apêl yn dymuno ymdrin ag apelau sawl-achos mewn un o ddwy ffordd:

**Apelau grŵp:** lle gwrandewir achos y swyddog cyflwyno ar gyfer ysgol unwaith ar gyfer cam cyntaf yr apêl. Yn y sefyllfa hon, bydd y swyddog cyflwyno'n cyflwyno'r achos cyffredinol (y cam ffeithiol), naill ai yn bersonol neu o bell, yng ngŵydd pob apelydd (ac unrhyw gynrychiolwyr) a chânt hwythau gwestiynu'r achos. Os bydd y panel yn casglu bod 'anfantais', bydd angen symud ymlaen i'r ail gam. Yn ystod y cam hwn, **rhaid** gwrando apelau yr apelwyr unigol fesul un, heb i'r lleill fod yn bresennol, ac **ni chaniateir** penderfynu nes bod pob apêl wedi'i chlywed.

**Apelau unigol:** lle bydd y swyddog cyflwyno'n cyflwyno'r achos, ac yna achosion yr apelwyr unigol, yn unol â threfn y gwrandawiad fel y'i disgrifir ym mharagraff 5.6. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r panel wrando achos yr awdurdod derbyn drosodd a throsodd.

Yn ystod y cam cyntaf, lle bydd yr awdurdod derbyn yn dadlau y byddai anfantais yn codi, bydd yr achos bob tro'r un fath. **Ni chaiff** yr awdurdod derbyn gyflwyno

tystiolaeth newydd, nac ymhelaethu ar ei achos wrth i'r apelau fynd rhagddynt, oherwydd ni fydd apelwyr yn gynharach yn y broses wedi cael cyfle i ystyried y dystiolaeth honno nac ymateb iddi. **Dylai'r** clerc esbonio ar ddechrau'r gwrandawiad na chaiff yr awdurdod derbyn wneud hyn. Fodd bynnag, os daw tystiolaeth newydd o sylwedd i'r golwg wrth gwestiynu tystiolaeth yr awdurdod derbyn, **rhaid** i'r clerc sicrhau bod y panel apêl yn ystyried pa effaith y gallai'r dystiolaeth ei chael ar bob un o'r apelau a **dylai** benderfynu sut i gynghori'r panel er mwyn iddo ymdrin â phob un o'r apelau'n deg. Gall hyn olygu gohirio'r apelau er mwyn rhoi'r cyfle i apelwyr ystyried y dystiolaeth newydd a'i herio.

**Apelau derbyn i chweched dosbarth**

5.26 Pan fo ymgeiswyr wedi cael gwrthod lle mewn ysgol benodol am fod mwy o bobl ifanc gymwys nag o leoedd a meini prawf goralw wedi'u defnyddio, **rhaid** i banelau apêl ddilyn y broses dau gam ym mharagraffau 5.17 a 5.18.

5.27 Yn achos apêl lle nad oedd y person ifanc yn bodloni'r gofynion derbyn penodol, **ni chaiff** y panel wneud ei asesiad ei hun o allu person ifanc, ond **rhaid** iddo benderfynu a oedd penderfyniad yr awdurdod derbyn nad oedd y person ifanc o'r safon ofynnol yn rhesymol yng ngoleuni'r wybodaeth a oedd ar gael iddo. Wrth wneud hynny, **rhaid** iddo ystyried a gafodd unrhyw broses i ystyried achosion o'r fath (er enghraifft, lle nad oedd disgybl wedi bod yn astudio yng Nghymru ac felly heb ennill cymwysterau TGAU) ei chyflawni mewn ffordd gyson a gwrthrychol.

**Nodiadau neu gofnod o'r achos**

5.28 Yn ogystal â'r nodiadau a wneir yn ystod apelau i gynorthwyo proses benderfynu'r panel, **rhaid** i'r clerc sicrhau y gwneir nodiadau cyflawn a chywir am yr achos, y presenoldeb, y pleidleisio a'r penderfyniadau (ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hyn) ar ba ffurf bynnag ag y bydd y panel a'r clerc yn cytuno sy'n briodol. Gellir teipio nodiadau'r achos neu eu hysgrifennu â llaw a **dylent** fod yn glir.

5.29 Eiddo'r panel apêl yw dogfennau o'r fath, a gan amlaf, **ni ddylent** fod ar gael i bartïon eraill. Fodd bynnag, ar brydiau, efallai y **dylid** datgelu'r nodiadau, ac felly, **rhaid** eu paratoi a'u cadw ar y sail y gellid eu rhyddhau. Gallai sefyllfaoedd posibl o'r fath gynnwys:

a. lle mae cais wedi dod gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am ddatgelu fel rhan o'i ymchwiliad i gŵyn ynglŷn â'r ffordd y cynhaliwyd apêl, neu
b. bod gofyn datgelu fel rhan o achos llys, er enghraifft, os bydd penderfyniad panel yn cael ei herio gan adolygiad barnwrol.

5.30 Nid yw panelau apêl yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG"). Lle bydd y nodiadau, at ddibenion gweinyddol, yn cael eu cadw gan awdurdod derbyn sy'n ddarostyngedig i'r DRhG, er enghraifft, lle bydd adran gyfreithiol awdurdod lleol yn cadw'r nodiadau ar ffeil neu lle cedwir y nodiadau mewn swyddfa ysgol - nid oes rhaid i'r awdurdod derbyn gydymffurfio â chais am gopïau o'r

nodiadau o dan y DRhG. Yn y sefyllfa hon, bydd yr awdurdod derbyn naill ai (a) yn cadw'r nodiadau ar ran y panel, ac, os felly, ni fydd y nodiadau'n cael eu cadw gan yr awdurdod at ddibenion y DRhG neu (b) bydd y nodiadau'n dod o dan yr eithriad sy'n berthnasol i gofnodion llysoedd neu dribiwnlysoedd.

5.31 Os gwneir cais am weld data personol sydd yn y nodiadau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, bydd sawl ffactor yn dylanwadu ar a ddylid datgelu'r data hwnnw ai peidio, gan gynnwys: pwy sy'n gwneud y cais; natur ac amgylchiadau unigol yr apêl; y ffordd y cedwir y data a buddiannau unrhyw drydydd partïon a enwir yn y data. Felly, efallai y bydd panelau neu glercod yn dymuno ceisio cyngor eu hunain cyn ymateb i gais o'r fath.

### Ceisiadau y tu allan i'r flwyddyn derbyn arferol

5.32 Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer blynyddoedd ar wahân i'r flwyddyn derbyn arferol, anaml y bydd modd i awdurdodau derbyn brofi 'anfantais' fel sail dros wrthod disgybl ychwanegol os bydd nifer y disgyblion yn y grŵp blwyddyn y ceisir lle ynddo'n dal i fod yn is na'r nifer derbyn ar gyfer yr ysgol, a oedd yn berthnasol i'r grŵp blwyddyn hwnnw yn ei flwyddyn derbyn arferol i'r ysgol.

5.33 Fel sy'n wir am achosion eraill lle gwrthodir apêl, os bydd rhieni neu bersonau ifanc yn aflwyddiannus yn eu cais am le mewn ysgol ar gyfer y blynyddoedd hyn, **rhaid** rhoi gwybod iddynt pam na fu eu cais yn llwyddiannus, a hefyd roi gwybod iddynt am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.

### Ysgolion â threfniadau dethol rhannol

5.34 **Rhaid** i ysgol â threfniadau dethol rhannol dderbyn hyd at ei nifer derbyn ac **ni chaiff** gadw lleoedd dethol yn wag.

### Rhestrau aros

5.35 **Ni chaiff** panelau roi sylw i ble y mae'r awdurdod derbyn wedi gosod plentyn ar y rhestr aros.

### Plant â datganiadau anghenion addysgol arbennig

5.36 Ymdrinnir â derbyn plant â datganiadau AAA i ysgolion ym mharagraffau 3.51 a 3.52 y Cod Derbyn i Ysgolion ac yn Atodlen 26 ac Atodlen 27 i Ddeddf Addysg 1996. Os enwir ysgol mewn datganiad, mae'n ddyletswydd ar y corff llywodraethu i dderbyn y plentyn i'r ysgol.

5.37 Os bydd rhiant plentyn â datganiad AAA yn dymuno apelio yn erbyn yr ysgol a enwir yn y datganiad, neu yn erbyn y ffaith nad oes ysgol wedi'i henwi, **rhaid** apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru[13], ac nid i banel apêl.

---

[13] Croeso i | Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (llyw.cymru).

**Plant ag anghenion addysgol arbennig nad oes ganddynt ddatganiadau**

5.38 **Ni chaiff** awdurdodau derbyn ysgolion prif ffrwd drin disgyblion sydd ag AAA ond heb ddatganiadau yn llai ffafriol na disgyblion eraill. **Ni chaiff** awdurdodau derbyn wrthod derbyn disgybl oherwydd eu bod yn ystyried na allant ddarparu ar gyfer ei AAA. At hynny, **ni chaniateir** iddynt wrthod derbyn disgybl ychwaith ar y sail nad oes ganddo ddatganiad AAA, neu am fod y disgybl wrthi'n cael ei asesu ar gyfer datganiad.

5.39 Os bydd plentyn yn mynd drwy broses asesu ar gyfer datganiad, efallai y bydd y rhieni'n dymuno gwneud cais am le mewn ysgol o dan y gweithdrefnau derbyn arferol rhag ofn i'r awdurdod lleol gasglu nad oes angen datganiad AAA er mwyn ymateb i anghenion y plentyn. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu y **dylai'r** plentyn gael datganiad AAA, yna rhoddir sylw i benderfyniadau ynglŷn â lleoliad priodol mewn ysgol fel rhan o'r broses rhoi datganiad honno.

**Plant â chynllun datblygu unigol**

5.40 Ers 1 Medi 2021, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru dderbyn plentyn i'r ysgol os yw'r ysgol wedi'i henwi yng nghynllun datblygu unigol (cyfeirir ato'n aml fel CDU) y plentyn at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol[14].

5.41 Dim ond mewn rhai amgylchiadau y ceir enwi ysgolion at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn, ac felly ni fydd pob cynllun datblygu unigol yn enwi ysgol yn y ffordd hon. Lle caiff ysgol ei henwi mewn cynllun datblygu unigol at ddiben sicrhau bod plentyn yn cael ei dderbyn, nid yw darpariaethau derbyn Deddf 1998 yn gymwys yn gyffredinol. Os bydd plentyn neu riant plentyn yn dymuno apelio yn erbyn yr ysgol a enwir yng nghynllun datblygu unigol y plentyn at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn, neu yn erbyn y ffaith nad enwir ysgol benodol, caiff yr apêl ei chyflwyno i Dribiwnlys Addysg Cymru.

**Plant ag anableddau**

5.42 Bydd panelau'n gwrando apelau yn erbyn penderfyniad i beidio â derbyn plentyn lle'r honnir y bu gwahaniaethu ar sail anabledd disgybl. Wrth ystyried apelau o'r fath, **rhaid** i'r panel ystyried arweiniad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar wahaniaethu ar sail anabledd[15]. **Rhaid** iddynt, ochr yn ochr â'u trafodion arferol, ystyried a yw'r meini prawf derbyn wedi'u rhoi ar waith yn gywir ac yn ddiduedd, ynteu a wahaniaethwyd yn erbyn y disgybl am reswm sy'n ymwneud â'r anabledd. Tribiwnlys Addysg Cymru[16] a fydd yn gwrando'r rhan fwyaf o'r achosion eraill yn erbyn ysgolion yr honnir eu bod yn gwahaniaethu ar sail anabledd.

---

[14] Newidiadau i'r gyfraith ar dderbyn disgyblion o ganlyniad i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

[15] I gael yr wybodaeth ddiweddaraf ewch i: www.equalityhumanrights.com/cy.

[16] Croeso i | Tribiwnlys Addysg Cymru (llyw.cymru).

**Penderfynu**

5.43 **Rhaid** i banelau apêl naill ai gadarnhau ynteu wrthod apêl ac **ni chaniateir** iddynt osod amodau penodol wrth gadarnhau apêl.

5.44 Os nad oes modd cytuno'n unfrydol ynglŷn ag apêl, **rhaid** penderfynu drwy fwyafrif syml y pleidleisiau a fwrir. Os bydd y pleidleisiau'n gyfartal (h.y. lle bydd gan y panel 5 aelod i gychwyn ond bod 1 aelod o'r panel yn ymadael) bydd gan gadeirydd y panel ail bleidlais neu bleidlais fwrw[17].

---

[17] Paragraffau 1(9) a 2(9) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005.

# 6. Ar ôl y gwrandawiad apêl

## Hysbysu'r apelwyr ynglŷn â'r penderfyniad

6.1 **Rhaid** i'r panel gyfleu'r penderfyniad ynglŷn â phob apêl, ynghyd ag ar ba seiliau y gwneir y penderfyniad hwnnw, wrth yr apelwyr a'r awdurdod derbyn, a hynny yn ysgrifenedig[18]. **Rhaid** i'r clerc (nid rhywun o'r awdurdod derbyn) lofnodi'r llythyr sy'n cynnwys y penderfyniad a'i anfon. **Dylid** ei anfon cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r panel benderfynu, ac, yn ddelfrydol, o fewn 5 niwrnod gwaith, er nad yw hyn bob tro'n bosibl lle bydd sawl apêl ar gyfer 1 ysgol. Wrth hysbysu apelwyr ynglŷn ag apêl lwyddiannus y tu allan i'r broses derbyn a amserlennwyd, pan fydd yn bosibl **dylid** dweud wrth yr apelwyr ar ba ddyddiad y gallant hwy neu eu plentyn ddechrau yn yr ysgol.

6.2 **Rhaid** i'r llythyr sy'n cynnwys y penderfyniad fod yn glir, heb ddefnyddio jargon fel ei fod yn rhwydd i rywun lleyg ei ddeall. **Rhaid** iddo alluogi'r partïon i wneud y canlynol:

- gweld pa faterion a ystyriwyd,
- deall beth yw barn y panel am y cwestiynau ynglŷn â ffeithiau neu ynglŷn â'r gyfraith y bu rhaid i'r panel eu datrys, a
- gwybod yn fras pam mae'r panel wedi penderfynu fel y gwnaeth[19] ac, yn benodol, dylai alluogi apelydd aflwyddiannus i ddeall pam na fu ei apêl yn llwyddiannus[20].

6.3 **Rhaid** i'r llythyr adlewyrchu'r math o apêl sy'n cael ei ystyried. Gydag apêl sy'n ymwneud â maint dosbarth babanod, **rhaid** iddo esbonio natur benodol yr apêl ac ar ba sail y daeth y panel i'w benderfyniad. O ran apelau eraill, **rhaid** iddo gyfeirio at y broses dau gam, oni bai na ddilynwyd y broses honno, oherwydd efallai na wnaethpwyd hynny am fod y panel wedi penderfynu na chymhwyswyd y trefniadau derbyn yn gywir. Lle'r oedd gofyn i'r panel benderfynu a oedd yr awdurdod derbyn wedi sefydlu anfantais, **rhaid** iddo nodi ei benderfyniad ac esbonio'i resymau.

6.4 Lle bydd apelydd wedi codi ffactorau penodol, perthnasol y mae'r panel wedi'u hystyried, **rhaid** cofnodi'r rhain yn gryno yn y llythyr[21]. Lle bu angen cael gafael ar gyngor cyfreithiol, **rhaid** crynhoi hyn yn y llythyr, yn enwedig os derbyniwyd y cyngor hwn ar ôl i'r panel ymneilltuo i benderfynu[22].

---

[18] Paragraff 1(10) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005.

[19] R v Birmingham City Council Education Appeals Committee ex parte B [1999] ELR305; R (ota I) v The Independent Appeal Panel of St Edward's College [2001] ELR 542.

[20] St Edward's College uchod.

[21] R (ota K and S) v Admission Appeals Panel of Cardiff County Council and Cardiff County Council [2003] EWHC 436 (Admin).

[22] R (ota I) v Independent Appeals Panel for G Technical College [2005] EWHC 558 (Admin).

6.5 Os oedd angen i'r panel benderfynu ynglŷn â materion neu ffeithiau cyfreithiol, er enghraifft, a oedd apelydd yn byw mewn cyfeiriad penodol ai peidio, **rhaid** i'r llythyr esbonio sut y datryswyd y materion hyn a pham yn fras[23].

6.6 **Rhaid** i'r llythyr esbonio, yn ddigon manwl er mwyn galluogi'r partïon i ddeall, y rhesymau dros benderfyniad y panel, gan roi sylw i'r cwestiynau allweddol y mae **rhaid** i'r panel eu hystyried. Er enghraifft, os ceir apêl nad oes a wnelo hi â maint dosbarth babanod, pam y penderfynodd y panel fod amgylchiadau unigol achos yr apelydd yn ddigonol neu'n annigonol i wrthbwyso dadleuon yr awdurdod derbyn ynglŷn ag anfantais, neu, mewn apêl y mae a wnelo hi â maint dosbarth babanod, pam y penderfynodd y panel bod penderfyniad yr awdurdod derbyn yn un na fyddai awdurdod rhesymol wedi'i wneud neu pam nad oedd y trefniadau derbyn wedi'u gweithredu'n gywir, a phetaent wedi cael eu gweithredu'n gywir, a fyddai'r plentyn wedi'i dderbyn ai peidio a pham.

6.7 Er y cydnabyddir y gall fod angen llythyrau safonol i ryw raddau, yn enwedig wrth ymdrin â swmp mawr o achosion, mae angen i bob llythyr sy'n cynnwys penderfyniad adlewyrchu amgylchiadau unigol yr apelydd penodol a'r rhesymau pam y bu apêl yr apelydd hwnnw yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.

6.8 Lle bu'r apêl yn llwyddiannus, pan fydd yn bosibl **dylai'r** llythyr sy'n cynnwys y penderfyniad gynnwys dyddiad dechrau. **Rhaid** i'r clerc hefyd gynnwys ffurflen i'w dychwelyd sy'n gofyn i'r apelwyr a fyddant yn derbyn y lle sy'n cael ei gynnig ai peidio a nodi dyddiad ar gyfer dychwelyd y ffurflen honno.

## Ceisiadau ac apelau o'r newydd

6.9 Os bu apêl apelwyr yn aflwyddiannus, gallant ailymgeisio am le yn yr un ysgol ar gyfer blwyddyn ysgol ddiweddarach ac os na fyddant yn llwyddiannus y tro hwnnw, bydd ganddynt hawl i apelio o'r newydd. Gan amlaf, ni fydd gan apelwyr yr hawl i apelio eilwaith ar gyfer yr un ysgol a'r un flwyddyn ysgol, ond efallai y cânt apelio o'r newydd o dan yr amgylchiadau hyn:

- os yw'r awdurdod derbyn yn cytuno i drefnu ail apêl oherwydd bod yr apêl gyntaf yn wallus, a bod posibilrwydd sylweddol y gallai'r gwallau hynny fod wedi effeithio ar y canlyniad (efallai y bydd hyn yn digwydd ar sail argymhelliad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu oherwydd bod yr awdurdod derbyn yn penderfynu ei hun y dylid gwneud hynny), neu
- os yw'r awdurdod derbyn wedi derbyn cais o'r newydd oherwydd bod newid sylweddol a pherthnasol wedi bod yn amgylchiadau'r rhiant neu'r person ifanc neu'r ysgol, ond ei fod o'r farn y **dylid** gwrthod y cais newydd hefyd. Enghreifftiau cyffredin o hyn yw lle bydd yr awdurdod derbyn, o bosibl, am ystyried cais o'r newydd oherwydd bod amgylchiadau wedi newid ers

---

24 St Edward's College and R (ota C) v the Appeals Panel of Nottinghamshire County Council and Nottinghamshire County Council [2004] EWHC 2988 (Admin).

cyflwyno’r cais gwreiddiol, megis rhesymau meddygol neu fod y teulu wedi symud tŷ.

6.10 Er mwyn sicrhau bod apelwyr yn cael gwrandawiad teg, **rhaid** i’r panel sy’n gwrando’u hail apêl gynnwys aelodau gwahanol, ac os oes modd, glerc gwahanol.

## Cwynion wrth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus

6.11 Gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ymchwilio i gwynion ysgrifenedig am gamweinyddu gan banel apelau derbyn. Mae camweinyddu’n cynnwys materion megis peidio â gweithredu’n annibynnol ac yn deg, yn hytrach na chwynion lle mae rhywun yn teimlo bod y penderfyniad yn anghywir.

6.12 Lle bydd yr Ombwdsmon, ar ôl ystyried cwyn am gamau panel apêl, yn canfod bod ‘camweinyddu’ wedi arwain at anghyfiawnder, un o’r camau gwneud iawn a gynigir weithiau yw y **dylid** cynnal apêl o’r newydd gerbron panel apêl ag aelodau gwahanol, a chlerc gwahanol. Dan yr amgylchiadau hynny, bydd yr Ombwdsmon yn argymell y **dylai’r** panel apêl newydd gael yr un pwerau â'r panel apêl gwreiddiol. Ni all yr Ombwdsmon roi sylwadau ynglŷn â phenderfyniad gwreiddiol y panel na'i wrthdroi.

6.13 Er nad oes hawl i apêl bellach yn ôl y gyfraith, caiff awdurdodau derbyn ddewis trefnu panel newydd yn dilyn argymhelliad Ombwdsmon gan ymrwymo i dderbyn y penderfyniad.

Cyfeiriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw:
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Rhif Ffôn: 0300 790 0203

## Cwynion wrth Weinidogion Cymru

6.14 Ni all Gweinidogion Cymru adolygu na gwrthdroi penderfyniadau panelau apêl annibynnol unigol, ond gallant ystyried arfer eu pwerau ymyrryd:

- os oedd y panel wedi'i gyfansoddi'n anghywir gan yr awdurdod derbyn;
- os yw’r awdurdod derbyn wedi gweithredu’n afresymol o ran rhoi swyddogaethau ar waith mewn cysylltiad â’r broses apêl neu wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd gyfreithiol mewn perthynas â’r broses honno, e.e., gweithredu’n groes i ddarpariaeth fandadol y Cod hwn.

6.15 Dim ond lle bydd yr apelwyr neu’r awdurdod derbyn yn llwyddiannus yn eu cais am Adolygiad Barnwrol o’r penderfyniad hwnnw y gall y llysoedd wrthdroi penderfyniad panel apêl.

# 7. Apelau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol i dderbyn disgyblion sydd 'wedi'u gwahardd ddwywaith' (ac eithrio plant sy'n derbyn gofal)

## Rhybudd ynglŷn ag apêl

7.1 Pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu derbyn disgybl (ar wahân i blentyn sy'n derbyn gofal) sydd wedi'i wahardd yn barhaol o 2 ysgol neu ragor, **rhaid** i'r awdurdod lleol roi rhybudd ysgrifenedig i gorff llywodraethu'r ysgol ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw ac ynglŷn â'i hawl i apelio (adran 95(2) o Ddeddf 1998 a pharagraff 2(2) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005).

7.2 Os bydd corff llywodraethu am apelio yn erbyn penderfyniad, **rhaid** iddo wneud hynny yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na'r 15fed diwrnod ysgol ar ôl y diwrnod iddo gael rhybudd, fan hwyraf, a **rhaid** iddo nodi ar ba sail y gwneir yr apêl[24].

7.3 Yna, bydd y panel apêl yn cyfarfod ar ddyddiad a benderfynir gan yr awdurdod lleol, a hynny heb fod yn hwyrach na'r 15fed diwrnod ysgol ar ôl diwrnod cofrestru'r apêl.

7.4 Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i dderbyn plentyn a waharddwyd ddwywaith ac sy'n derbyn gofal gan un o awdurdodau lleol. Fodd bynnag, os yw awdurdod derbyn yn dymuno herio'r penderfyniad i dderbyn plentyn o'r fath ar sail anfantais ddifrifol i ddarparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, **rhaid** iddo gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru cyn pen 7 niwrnod iddo gael y ffurflen gais[25].

## Y panel apêl

7.5 **Ni chaiff** rhywun fod yn aelod o banel os yw wedi bod yn ymwneud mewn unrhyw ffordd ag ystyried yn flaenorol a ddylid rhoi lle i'r plentyn eto mewn unrhyw ysgol y mae'r disgybl hwnnw wedi'i wahardd ohoni'n barhaol. Hefyd, byddai rhywun yn anghymwys petai wedi bod yn rhan o unrhyw wrandawiad apêl blaenorol a oedd yn ymwneud â'r plentyn o dan adran 95(2) o Ddeddf 1998.

## Y weithdrefn apelio

7.6 **Rhaid** i'r panel apêl sicrhau bod apelau a gynhelir yn bersonol ac apelau o bell yn cael eu gwrando yn breifat a chaniatáu:

---

[24] Mae paragraff 2 o Atodlen 2 ynghyd â pharagraff 5 o Atodlen 1 i Reoliadau 2005 yn nodi'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud ag apelau o'r fath.

[25] Gweler rheoliad 9 o Reoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009.

- i'r awdurdod lleol a'r corff llywodraethu wneud cyflwyniadau ysgrifenedig, ac
- i un o gynrychiolwyr yr awdurdod lleol a llywodraethwr a enwebir gan y corff llywodraethu gyflwyno eu hachosion ar lafar.

7.7 Wrth ystyried yr apêl, **rhaid** i'r panel ystyried:

- y rhesymau dros benderfyniad yr awdurdod lleol y **dylid** derbyn y plentyn, ac
- unrhyw resymau a gynigir gan y corff llywodraethu ynglŷn â pham y byddai'n amhriodol derbyn y plentyn.

7.8 Caiff y panel roi'r cyfarwyddyd y caiff aelod o'r awdurdod lleol fod yn bresennol mewn apêl fel sylwedydd.

7.9 Gellir ystyried ac ymdrin â dwy apêl neu ragor yn yr un gwrandawiad, os yw'r panel apêl o'r farn mai'r un materion a godir yn yr apelau neu fod cysylltiad rhyngddynt.

7.10 Os bydd aelodau'r panel yn anghytuno, **rhaid** penderfynu ynglŷn â'r apêl drwy bleidlais mwyafrif syml. Os bydd nifer y pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan gadeirydd y panel ail bleidlais neu bleidlais fwrw. **Rhaid** i'r ysgol a'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r penderfyniad gan ei fod yn benderfyniad sy'n eu rhwymo[26].

7.11 **Rhaid** i'r clerc gyfleu penderfyniad panel apêl a'r sail dros wneud y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig wrth yr awdurdod lleol, wrth y corff llywodraethu ac wrth yr apelwyr dan sylw erbyn diwedd yr ail ddiwrnod ysgol ar ôl cwblhau'r gwrandawiad apêl. **Dylid** hefyd gyfleu'r penderfyniad wrth yr apelwyr dros y ffôn, neu drwy ddulliau priodol eraill fel neges destun neu e-bost erbyn y diwrnod ar ôl y gwrandawiad, fan hwyraf.

7.12 Pan fo plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o 2 neu ragor o ysgolion (a'r gwaharddiad mwyaf diweddar wedi digwydd yn y 2 flynedd ddiwethaf), mae adran 95 o Ddeddf 1998 yn darparu nad oes rhaid gwneud trefniadau ar gyfer y rhiant (neu, yn achos addysg chweched dosbarth, y plentyn) i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn.

[26] Adran 95(4) o Ddeddf 1998.

# 8. Hyfforddi aelodau'r panel apêl ac ymarferwyr eraill

## Ystyriaethau cyffredinol

8.1 **Rhaid** i awdurdodau derbyn drefnu ac ariannu hyfforddiant ar gyfer aelodau panelau apêl, clercod panelau, a swyddogion cyflwyno, cyn eu penodi ar banel ac wedyn, er mwyn sicrhau bod y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol yn cael eu diweddaru o bryd i'w gilydd. Un dewis effeithiol yw cynnig hyfforddiant gwahanol ar gyfer rolau penodol e.e. sgiliau cadeirio, rôl y clerc neu rôl y swyddog cyflwyno.

8.2 **Dylai** unigolyn (neu fwy nag un) gael ei ddynodi ym mhob awdurdod derbyn yn gyfrifol am oruchwylio trefnu hyfforddiant ar gyfer aelodau panelau apêl ac ymarferwyr eraill. **Dylai** awdurdodau derbyn ystyried pa le sydd i gydlynu hyfforddiant a bydd awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion yn cael budd o rannu gwybodaeth ac arferion da â'i gilydd. I hwyluso defnyddio adnoddau'n effeithiol, **dylai** awdurdodau lleol wahodd aelodau o **bob** panel apêl yn eu hardal i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyd.

8.3 Mae gan y Coleg Barnwrol ddiddordeb sylweddol yn hyfforddiant aelodau panelau a rôl clercod. Gall awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am drefnu apelau ofyn i'r Coleg Barnwrol am gyngor ar hyfforddiant.

8.4 Gyda chytundeb pob parti sy'n ymwneud â'r apêl, gallai'r hyfforddiant i aelodau panelau, yn enwedig i gadeiryddion, gynnwys bod yn bresennol mewn apêl fel sylwedydd. **Ni chaiff** hyfforddeion gyfrannu at unrhyw ran o'r achos, ond cânt fod yn bresennol i wrando ar drafodaethau'r panel. Fodd bynnag, o brofiad, gwelwyd bod cael gormod o bobl yn y gwrandawiad yn fwrn ar apelwyr a **dylid** cadw nifer y sylwedyddion mor isel â phosibl.

8.5 Ceir manylion y deunydd a allai fod o gymorth i aelodau panelau, i gadeiryddion, i glercod ac i swyddogion cyflwyno yn Atodiad E i'r Cod hwn.

# Atodiad A: Apelau derbyn - y gyfraith

## Cyflwyniad

A.1 Mae awdurdodau derbyn yn gyfrifol am drefnu apelau a **rhaid** iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gan gynnwys dehongliadau o'r gyfraith a gafwyd gan y llysoedd, a **rhaid** iddynt weithredu'n unol â'r Cod hwn ynghyd ag â'r Cod Derbyn i Ysgolion. Mae'r paragraffau isod yn cyfeirio at y darpariaethau cyfreithiol perthnasol ond nid yw'n fwriad i'r rhain gynnig arweiniad diffiniol o ran dehongli'r gyfraith: mater i'r llysoedd yw hynny.

A.2 Diffinnir awdurdodau derbyn yn adran 88 o Ddeddf 1998. Ar gyfer ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn; neu, os yw'r awdurdod lleol wedi dirprwyo cyfrifoldeb iddo dros drefniadau derbyn, y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn. Fodd bynnag, hyd yn oed os rhoddwyd cyfrifoldeb dirprwyedig dros drefniadau derbyn i ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir, yr awdurdod lleol sy'n dal i fod yn gyfrifol am drefnu apelau a ddygir yn erbyn penderfyniad gan y corff llywodraethu. Gydag ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir, yr awdurdod derbyn yw'r corff llywodraethu.

## Yr hawl i apelio o dan Ddeddf 1998 (fel y'i diwygiwyd)

A.3 Mae Pennod 1 o Ran 3 o Ddeddf 1998 yn cynnwys y prif ddarpariaethau mewn perthynas â derbyniadau ysgolion ac apelau derbyn.

A.4 Mae adran 86 o Ddeddf 1998 yn darparu bod **rhaid** i'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir (ac eithrio'r rhai sy'n dewis yn gyfan gwbl yn ôl gallu) gydymffurfio ag unrhyw ddewis y mae'r rhiant yn ei ffafrio ac eithrio pan fyddai gwneud hynny yn anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau yn effeithlon.

A.5 Mae adran 94 o Ddeddf 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau derbyn wneud trefniadau i rieni (a phlant o dan rai amgylchiadau) apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn disgybl i'r ysgol. Caiff dau neu ragor o awdurdodau derbyn yn yr un awdurdod lleol wneud trefniadau ar y cyd.

A.6 O dan adran 94(1) a (2) o Ddeddf 1998, mae gan rieni, a phersonau ifanc yn achos derbyn i chweched dosbarth, yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i wrthod derbyn i ysgol. Fodd bynnag, lle bydd plentyn wedi'i wahardd yn barhaol o 2 ysgol neu ragor, bydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle mewn ysgol yn cael ei hatal mewn gwirionedd am 2 flynedd ar ôl yr ail waharddiad neu unrhyw waharddiad wedyn (gweler adran 87(2) ac adran 95(1) o Ddeddf 1998).

A.7 **Rhaid** i awdurdodau lleol wneud trefniadau i alluogi ymgeisydd i apelio yn erbyn:

- Unrhyw benderfyniad a wneir gan neu ar ran yr awdurdod lleol sy'n gwrthod derbyn y plentyn i'r ysgol pan mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn.

- Unrhyw benderfyniad arall a wneir gan yr awdurdod lleol neu ar ei ran ynglŷn ag ym mha ysgol y darperir addysg ar gyfer plentyn (gweler adran 94(1)(a) o Ddeddf 1998).
- Unrhyw benderfyniad a wneir gan y corff llywodraethu neu ar ei ran yn gwrthod derbyn plentyn i'r ysgol yn achos ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir a gynhelir gan yr awdurdod lleol (gweler adran 94(1)(b) o Ddeddf 1998).

A.8 Fodd bynnag, nid oes gofyn i awdurdodau lleol wneud y trefniadau hyn lle bydd eu penderfyniadau ar ffurf cyfarwyddydau a wneir dan adran 96 o Ddeddf 1998, sy'n rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol, o dan amgylchiadau a bennir, gyfarwyddo ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir i dderbyn plentyn penodol.

A.9 **Rhaid** i gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir wneud trefniadau i alluogi apêl yn erbyn unrhyw benderfyniad a wneir gan y corff llywodraethu neu ar ei ran i wrthod derbyn plentyn neu berson ifanc i'r ysgol (adran 94(2) o Ddeddf 1998).

A.10 Caiff cyrff llywodraethu 2 neu ragor o ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sy'n cael eu cynnal gan yr un awdurdod lleol wneud trefniadau ar y cyd. Caiff awdurdod lleol a chyrff llywodraethu 1 neu ragor o ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sy'n cael eu cynnal ganddo hefyd wneud trefniadau ar y cyd ar gyfer apelau. Gallai'r trefniadau hyn gynnwys cydhysbysebu am aelodau lleyg (gweler paragraff 2.7) a rhannu gwasanaethau clerc.

A.11 Bydd gan rieni a phobl ifanc yr hawl i wneud ceisiadau derbyn i fwy nag 1 ysgol. Os byddant yn aflwyddiannus, bydd ganddynt hefyd yr hawl i apelio am le ym mhob un o'r ysgolion a ffefrir ganddynt.

A.12 Mae gofyn i awdurdodau lleol, o dan adran 95 o Ddeddf 1998, sefydlu panelau apêl i wrando ar apelau gan gyrff llywodraethu yn erbyn penderfyniad gan yr awdurdod lleol, os hwnnw yw'r awdurdod derbyn, i dderbyn i'w hysgol unrhyw blentyn sy'n dod o dan y categori a ddisgrifir ym Mhennod 7 y Cod hwn.

A.13 Os gwrthodir caniatâd i ddisgybl sydd eisoes yn mynychu ysgol drosglwyddo i'r chweched dosbarth yn yr ysgol honno, bydd gan y person ifanc neu ei rieni yr un hawl i apelio dan adran 94(1A) a (2A) o Ddeddf 1998 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002) ag a fydd gan ddisgybl o'r tu allan, neu ei rieni, y gwrthodir ei dderbyn i'r grŵp blwyddyn hwnnw. Gwneir y trefniadau apelio gan yr awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol.

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)

A.14 Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gofynion ar gyfer y gweithdrefnau apelio ac ar gyfer materion megis y ddyletswydd i hysbysebu am aelodau lleyg, talu lwfansau, indemnio aelodau panelau a chyfansoddiad y panelau sy'n gwrando apelau naill ai gan rieni, neu gan gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir. Mae'n ofynnol i awdurdodau derbyn hysbysebu am aelodau lleyg bob 3 blynedd. Yn

achos derbyn i chweched dosbarth, pan fydd person ifanc a'i rieni yn apelio yn erbyn penderfyniad, mae'r Rheoliadau hyn yn mynnu y caiff yr apelau hynny eu gwrando gyda'i gilydd.

## Deddfwriaeth berthnasol arall

## Deddf Cydraddoldeb 2010

A.15 **Rhaid** i banelau gydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae hi hefyd yn ofynnol i banelau apêl roi sylw i ganllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[27].

A.16 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfuno'r gyfraith sy'n gwahardd gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac yn ehangu'r rhestr o nodweddion gwarchodedig. **Rhaid** i bob ysgol roi sylw dyladwy i'w rhwymedigaethau o dan y Ddeddf. **Rhaid** i'w polisïau a'u harferion, gan gynnwys penderfyniadau a threfniadau derbyn, fodloni gofynion y Ddeddf, a gallai methiant i sicrhau hynny fod yn berthnasol i'r materion y mae panel apêl i'w penderfynu.

A.17 **Ni chaiff** awdurdod derbyn na phanel apêl wahaniaethu ar sail anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw na chyfeiriadedd rhywiol person yn y trefniadau y mae'n eu gwneud ar gyfer apêl.

A.18 **Ni chaiff** awdurdod derbyn na phanel apêl aflonyddu ar apelydd, nac ar blentyn sy'n destun apêl, mewn perthynas â'i anabledd, hil neu ryw.

A.19 **Ni chaiff** awdurdod derbyn na phanel apêl erlid person mewn perthynas â gweithred warchodedig y mae'r person hwnnw wedi'i gwneud neu y credir ei fod wedi'i gwneud (e.e. dwyn achos o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn y trefniadau y mae'n eu gwneud ar gyfer apêl.

A.20 Mae ysgolion y mae Gweinidogion Cymru wedi'u nodi yn rhai sydd â chymeriad crefyddol (ysgolion ffydd) wedi'u hesemptio rhag rhai agweddau ar wahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred. Mae hyn yn golygu y gallant wneud penderfyniad ynghylch derbyn plentyn ai peidio ar sail crefydd neu gred. Caniateir o dan y gyfraith i ysgolion un rhyw wahaniaethu ar sail rhyw yn eu trefniadau derbyn.

A.21 Mae awdurdodau derbyn hefyd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Felly, **rhaid** iddynt roi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, gan hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cydgysylltiadau da mewn perthynas ag anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

[27] https://www.equalityhumanrights.com/cy/what-equality-law-means-you-education-provider-schools.

A.22 Mae canllawiau pellach ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gael oddi wrth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

A.23 Yng Nghymru, mae rhai cyrff cyhoeddus hefyd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau penodol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"), a elwir hefyd yn ddyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru[28]. Nod y dyletswyddau hyn yw ei gwneud yn bosibl cyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus mewn ffordd well, drwy ei gwneud yn ofynnol, er enghraifft, cyhoeddi amcanion cydraddoldeb ynghyd ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, gofynion ymgysylltu, adroddiadau cynnydd, casglu data a mwy.

A.24 Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithredu fel rheoleiddiwr sy'n sicrhau y cydymffurfir â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a bod camau yn cael eu cymryd i'w chefnogi. Mae gwybodaeth am ei rôl reoleiddio, ei gyfrifoldebau a'i bwerau unioni i'w gweld yn Nyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**Deddf Hawliau Dynol 1998**

A.25 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi hawl i fynediad at addysg. Nid yw'r hawl hon yn estyn i sicrhau lle mewn ysgol benodol. Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau derbyn a phanelau apêl ystyried rhesymau rhieni dros fynegi ffafriaeth pan fyddant yn gwneud penderfyniadau derbyn a phan fyddant yn gwneud penderfyniadau ar apelau. Gallai'r rhesymau hyn gynnwys, er enghraifft, hawliau'r rhieni i sicrhau bod addysg eu plentyn yn cydymffurfio â'u credoau crefyddol neu athronyddol eu hunain (i'r graddau y mae'n gyson â darparu cyfarwyddyd effeithlon ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol).

## Pwerau panelau apêl

A.26 Ni all panelau apêl wrando cwynion neu wrthwynebiadau sy'n ymwneud ag agweddau ehangach ar bolisïau ac arferion derbyn lleol, megis y trefniadau derbyn a bennir gan awdurdodau lleol neu gan gyrff llywodraethu. Nid oes ganddynt rôl ychwaith yn y broses ymgynghori drwy gyfrwng fforymau derbyn lleol. Gall panelau apêl ystyried pryderon ynglŷn â threfniadau derbyn awdurdod derbyn unigol a godir gan apelwyr yng nghyd-destun eu hapêl, i'r graddau y gall hynny fod yn berthnasol i dderbyn eu plentyn neu nhw eu hunain. **Ni ddylai** panelau gael eu tynnu i drafodaeth gyffredinol ynglŷn â pholisïau ac arferion derbyn mewn gwrandawiadau apêl na chaniatáu hynny. **Dylent** ganolbwyntio ar yr achos a gyflwynir gan yr awdurdod derbyn dros wrthod derbyn y plentyn neu'r person ifanc ac achos yr apelwyr o blaid derbyn y plentyn neu'r person ifanc hwnnw.

A.27 O dan adran 94(6) o Ddeddf 1998, rhaid i'r canlynol gadw at benderfyniad panel apêl y **dylid** derbyn plentyn neu berson ifanc i ysgol:

[28] Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | LLYW.CYMRU.

- yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu a wnaeth y penderfyniad sy'n destun yr apêl, neu y gwnaethpwyd y penderfyniad ar ei ran, a
- chorff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir y mae'r panel yn penderfynu y **dylid** cynnig lle i'r plentyn neu'r person ifanc dan sylw ynddi.

A.28 Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, na chaiff yr awdurdod lleol enwi ysgol lle bu apêl yn aflwyddiannus mewn unrhyw gyfarwyddyd pellach o dan adran 96 o Ddeddf 1998.

A.29 Nid oes gan Weinidogion Cymru bŵer i ystyried cwynion yn erbyn penderfyniadau panelau apêl na'r ffordd y maent yn cyflawni eu gwaith. Os yw'r apelwyr yn credu bod y panel a wrandawodd eu hapêl wedi gweithredu'n amhriodol neu'n afresymol wrth ymdrin â'u hachos, neu ag achosion eraill sydd wedi effeithio ar eu hachos hwy, gallant gwyno wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gweler paragraff 6.11).

A.30 Dim ond lle bydd yr apelwyr neu'r awdurdod derbyn wedi llwyddo yn eu cais am Adolygiad Barnwrol ynglŷn â'r penderfyniad hwnnw y gall y llysoedd wrthdroi penderfyniad panel apêl.

A.31 Mae'r Cod hwn yn mynnu bod **rhaid** i gadeiryddion ac aelodau eraill gael eu hyfforddi cyn dod yn aelod o banel ac y **dylent** barhau i ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth tra ydynt yn aelodau. Ceir rhagor o fanylion am hyfforddiant ym Mhennod 8 y Cod hwn.

# Atodiad B: Egwyddorion arweiniol cyffredinol ar gyfer panelau apêl

B.1 Mae'r paragraffau a ganlyn yn ymwneud â'r egwyddorion arweiniol cyffredinol y mae **rhaid** i bob panel apêl derbyn eu dilyn.

B.2 Mae panelau apêl yn cyflawni swyddogaeth farnwrol. Mae hyn yn golygu bod **rhaid** iddynt weithredu'n unol ag egwyddorion cyfiawnder naturiol a dehongliadau sydd wedi'u sefydlu ynglŷn ag ystyr hyn o safbwynt ymarferol. Mae i hyn oblygiadau ar gyfer y ffordd y cynhelir achosion ac ar gyfer ymddygiad aelodau panelau apêl.

B.3 **Rhaid** i banelau apêl fod yn annibynnol ac yn ddiduedd a **rhaid** iddynt gael eu gweld felly. **Rhaid** iddynt weithredu'n unol â rheolau cyfiawnder naturiol, sy'n golygu bod yn deg â phob parti bob amser. Dyma'r egwyddorion cyfiawnder naturiol sydd fwyaf perthnasol i apelau:

- **Ni chaniateir** i unrhyw aelod o'r panel fod â buddiant yng nghanlyniad yr achos na bod wedi ymwneud mewn unrhyw fodd â cham cynharach o'r achos.
- **Dylid** rhoi'r cyfle i bob ochr ddatgan ei hachos heb darfu afresymol.
- **Rhaid** i bob parti fod wedi gweld y deunydd ysgrifenedig. Os bydd mater newydd yn codi yn ystod yr achos, **rhaid** rhoi cyfle i'r partïon ei ystyried a rhoi eu sylwadau arno.

## Egwyddorion ymarferol

B.4 Yr egwyddorion allweddol a **ddylai** arwain unrhyw wrandawiad panel apêl yw:

**Annibyniaeth** - Prif gyfrifoldeb panel apêl yw gweithredu'n annibynnol. **Rhaid** i'r panel wneud popeth posibl i sicrhau bod y ddau barti sy'n ymddangos ger ei fron yn ei ystyried yn wirioneddol annibynnol.

**Disgyblaeth** - **Rhaid** i banelau apêl ddilyn dehongliadau'r gyfraith a bennir gan y llysoedd gan eu bod yn rhan o'r system gyfreithiol.

**Anffurfioldeb** - Er bod panelau apelau derbyn, fel y dywedir uchod, yn rhan o'r system gyfreithiol, mae gwrandawiadau apêl yn anffurfiol. Fodd bynnag, **rhaid** i'w gweithdrefnau a'r ffordd y'u cynhelir sicrhau bod y ddau barti'n cael cyfle i ddweud yr hyn y mae ganddynt i'w ddweud, i ofyn cwestiynau y maent yn dymuno'u gofyn ac i wneud cyflwyniadau priodol. **Ni ddylai'r** ffaith eu bod yn anffurfiol arwain at ddiffyg strwythur a **rhaid** cadw at ddull cyson o drin pawb.

**Tystiolaeth** - Rhaid i banelau apêl benderfynu ynglŷn â ffeithiau achos ac wedyn roi'r gyfraith ar waith ar gyfer yr achos hwnnw. Efallai na fydd modd sefydlu'r ffeithiau'n llawn bob amser: er enghraifft, os yw'r dystiolaeth a roddir yn 'dystiolaeth achlust' ynglŷn â rhywun nad yw'n bresennol yn y gwrandawiad. Yn anad dim, **rhaid** i'r dystiolaeth fod yn berthnasol ac yn gymorth i'r gwrandawiad. Efallai y bydd rhywfaint o'r dystiolaeth yn amlwg yn annibynadwy a **dylid** ei thrin â gofal. Lle bo modd, **rhaid** i banelau apêl geisio gwirio'r dystiolaeth a gyflwynir. Lle ceir gwrthdaro rhwng tystiolaeth ac nad oes modd datrys hynny, bydd rhaid i banelau ddibynnu ar eu hasesiad ynglŷn â pha mor ddibynadwy a chredadwy yw'r sawl sy'n rhoi'r dystiolaeth. Efallai y bydd y panel yn ei hystyried yn briodol caniatáu i dystion sy'n bresennol i roi tystiolaeth, ar yr amod ei bod yn berthnasol ac nad yw'n ailadroddus. Efallai y bydd panelau am geisio cadarnhad annibynnol (gan roi rhybudd i'r apelydd ymlaen llaw) ynglŷn â materion megis cyflwr meddygol neu ei gyfeiriad.

**Cynrychiolaeth** - Fel rheol, ni fydd angen cynrychiolydd cyfreithiol ar y sawl sy'n apelio ond mae ganddo'r hawl i ddod â chynghorydd cyfreithiol neu gyfaill gydag ef i fod yn gefn iddo.

**Holi** - Caiff y panel apêl holi'r ddau barti er mwyn sicrhau bod ganddo ddarlun cyflawn. **Rhaid** gwneud hyn mewn ffordd ddiduedd.

## Y gwrandawiad effeithiol

B.5 **Rhaid** i aelodau'r panel apêl ddarllen yr holl bapurau'n ofalus cyn cynnal y gwrandawiad a dyma'r swyddogaethau y mae'n rhaid i aelodau panel apêl eu cyflawni:

- gwrando ar y dystiolaeth a'i nodi,
- sefydlu'r ffeithiau perthnasol yng ngoleuni'r dystiolaeth a gyflwynir,
- dadansoddi'r gyfraith berthnasol a chymhwyso honno i'r ffeithiau,
- penderfynu, a
- chofnodi'r penderfyniad hwnnw'n ysgrifenedig gan roi rhesymau i egluro pam y penderfynwyd felly.

Wrth gloi, **dylai** pob parti:

- fod wedi deall natur yr achos,
- bod wedi cael cyfle priodol i siarad, i gyflwyno tystiolaeth ac i ofyn ac ateb cwestiynau,
- teimlo iddynt ddweud popeth yr oeddent yn dymuno'i ddweud,
- teimlo iddynt gael eu trin yn gwrtais a bod pobl wedi gwneud iddynt deimlo'n gartrefol,
- teimlo bod y panel wedi bod yn gwrando ar bob pwynt a wnaethpwyd, ac wedi'u deall, a
- deall yn iawn pa bryd y cânt wybod beth yw penderfyniad y panel.

Pan fydd y penderfyniad yn hysbys, **dylai** pob parti:

- fod wedi deall y rhesymau dros y penderfyniad, a **rhaid** mynegi'r rhesymau hynny yn glir ac yn gryno (yn ysgrifenedig), a
- bod yn fodlon i'r gwrandawiad fod yn un teg, ennill neu golli.

# Atodiad C: Cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau babanod a'r goblygiadau ar gyfer apelau

## Cyflwyniad

C.1 Dosbarthiadau babanod yw dosbarthiadau lle bydd mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd 5, 6, neu 7 oed yn ystod y flwyddyn ysgol. Yn amodol ar ambell eithriad cyfyngedig, ni chaiff yr un dosbarth babanod gydag un athro/athrawes ysgol yn bresennol gynnwys mwy na 30 disgybl.

C.2 Mae adran 86 o Ddeddf 1998 yn nodi'r amgylchiadau lle na fydd rhwymedigaeth ar awdurdod derbyn i gydymffurfio â'r hoff ddewis a fynegwyd. Mae'r rhain yn cynnwys lle byddai cydymffurfio â hoff ddewis rhieni yn anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Dywed adran 86(4) o Ddeddf 1998 y gall anfantais godi yn sgil camau y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfedd â'r ddyletswydd ar awdurdod lleol a chorff llywodraethu i gydymffurfio â'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod.

C.3 Yn sgil hyn, gallai awdurdod derbyn wrthod derbyn plentyn i ysgol petai'n ystyried y byddai angen iddo, er mwyn gwneud hynny, ac er mwyn iddo gydymffurfio â'r cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau babanod, gymryd 'camau perthnasol': er enghraifft, cyflogi athro/athrawes ychwanegol neu adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol, naill ai yn y flwyddyn derbyn neu mewn blwyddyn ddilynol. Fodd bynnag, mewn achos grŵp blwyddyn derbyn, dim ond pe bai nifer derbyn yr ysgol ar gyfer y grŵp blwyddyn dan sylw wedi'i gyrraedd eisoes y gellid gwrthod plentyn fel hyn.

## Cyfyngiadau ar gwmpas apelau derbyn yn sgil y cyfyngiadau statudol ar faint dosbarthiadau babanod

C.4 Mae rheoliad 6(5) o Reoliadau 2005 yn **cyfyngu** ar yr amgylchiadau lle gall panel apêl gadarnhau apêl er mwyn derbyn plentyn i ysgol pan fo'r awdurdod derbyn wedi gwrthod ar y sail y byddai derbyn y plentyn yn peri anfantais oherwydd y byddai angen camau perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfyngu ar faint dosbarthiadau babanod. **Dim ond** os yw'r panel apêl yn fodlon bod un o'r seiliau canlynol yn berthnasol y gellir cadarnhau apêl yn y categori hwn[29]:

- Sail A – byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle petai trefniadau derbyn yr ysgol wedi cydymffurfio â gofynion y Cod Derbyn i Ysgolion a/neu Ran 3 o Ddeddf 1998;
- Sail B – byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle petai trefniadau derbyn a oedd yn cydymffurfio wedi'u gweithredu'n gywir;
- Sail C – nid oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi'i wneud o dan amgylchiadau'r achos.

[29] Rheoliad 6(5) o Reoliadau 2005.

**Rhaid** i'r panel apêl gyfeirio'n ddi-oed at yr awdurdod lleol a'r awdurdod derbyn (os yw'r apêl ar gyfer ysgol sy'n gweithredu fel ei awdurdod derbyn ei hun) unrhyw agweddau ar y trefniadau derbyn y mae'n nodi eu bod yn anghyfreithlon.

C.5 Felly, **dylai** apelau sy'n ymwneud â maint dosbarth babanod ddilyn y broses a ddisgrifir isod.

C.6 **Yn gyntaf:** **rhaid** i'r awdurdod derbyn allu bodloni'r panel bod yr amodau sydd dan sylw'n golygu bod a wnelo'r apêl â maint dosbarth babanod.

C.7Y 2 elfen sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r panel bod yr amodau dan sylw'n berthnasol yw:

(i) bod nifer derbyn yr ysgol wedi'i gyrraedd eisoes, a
(ii) y byddai angen cymryd camau perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau petai'r awdurdod derbyn wedi cytuno i dderbyn plentyn ychwanegol e.e. cyflogi athro/athrawes arall, ac y byddai'r camau hynny'n anfanteisiol.

C.8 **Dylai** panel ystyried yr anfantais a berid pe derbynnid plentyn ychwanegol – nid dim ond yng nghyswllt y sefyllfa dan sylw ar y pryd, ond hefyd yng nghyswllt unrhyw sefyllfa sy'n sicr o godi yn y dyfodol tra bo'r plentyn yn dal i fod yn faban, a'r angen i faint yr holl ddosbarthiadau babanod gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

C.9 Os bydd y panel yn penderfynu nad yw'r amodau'n berthnasol, **dylai** ddilyn y broses dau gam, fel y'i disgrifir ym mharagraffau 5.17 a 5.18. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen gohirio'r gwrandawiad(au) er mwyn i'r awdurdod derbyn a'r apelydd, ill dau, ailystyried sut y mae cyflwyno'u hachosion.

C.10 **Yn ail:** **rhaid** i'r panel apêl ystyried a wrthodwyd lle i'r plentyn am fod Sail A neu Sail B yn berthnasol.

C.11 Wrth ystyried apêl o dan Sail B, **dylai'r** panel ystyried y deunydd a oedd ar gael i'r awdurdod derbyn ar yr adeg pan wnaeth ei benderfyniad, neu'r deunydd a **ddylai** fod wedi bod ar gael i'r awdurdod derbyn petai wedi gweithredu'n rhesymol. Fodd bynnag, caiff y panel ganiatáu i'r apelydd gyflwyno deunydd o'r newydd er mwyn pennu sail ffeithiol ar gyfer ei honiad nad oedd y trefniadau wedi'u gweithredu'n gywir. Ar y sail hon, **ni chaiff** y panel gadarnhau'r apêl oni bai bod y trefniadau derbyn heb eu gweithredu'n gywir.

C.12 **Yn drydydd:** (oni bai bod yr apêl yn cael ei chadarnhau o dan Sail A neu B) **rhaid** i'r panel apêl ystyried, o dan Sail C, a oedd penderfyniad yr awdurdod derbyn yn un na fyddai awdurdod derbyn rhesymol wedi'i wneud o dan amgylchiadau'r achos.

C.13 Er mwyn i benderfyniad awdurdod derbyn ddod o fewn Sail C, bydd angen i banel gael ei fodloni bod y penderfyniad i wrthod derbyn y plentyn penodol yn

wrthnysig yng ngoleuni'r trefniadau derbyn[30], h.y. ei fod y tu hwnt i'r ystod o ymatebion sy'n agored i benderfynwr rhesymol[31] neu'n benderfyniad sydd mor warthus yn yr ystyr ei fod yn afresymol neu'n groes i safonau moesol derbyniol na fyddai'r un person call a oedd wedi ystyried y cwestiwn wedi ei wneud[32]. Nid oes gan banelau bŵer o gwbl i ddadansoddi a yw'r trefniadau derbyn eu hunain yn afresymol neu'n wrthnysig onid yw'r trefniadau hynny'n amlwg yn anghyfreithlon neu'n anghyfreithlon yn eu hanfod.

C.14 Wrth benderfynu, **rhaid** i'r panel ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol. Fel sy'n wir am Seiliau A a B, **rhaid** i'r panel adolygu penderfyniad yr awdurdod derbyn yng ngoleuni'r deunydd a oedd ar gael i'r awdurdod derbyn ar yr adeg y gwnaeth ei benderfyniad. O dan amgylchiadau eithriadol, caiff panel hefyd ystyried deunydd a **ddylai** fod wedi bod ar gael i'r awdurdod derbyn ar y pryd hwnnw pe na byddai wedi ymddwyn yn afresymol, er enghraifft petai rhiant wedi darparu'r wybodaeth gyda'i gais, ond bod yr awdurdod derbyn wedi'i cholli. Felly, **ni ddylai** tystiolaeth ynglŷn â materion a gododd ar ôl i'r awdurdod derbyn benderfynu ac na allai'r awdurdod fod wedi bod yn ymwybodol ohonynt bryd hynny fod yn berthnasol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro'r panel rhag caniatáu i'r apelwyr gyflwyno llythyr neu ddatganiad i ddangos beth oedd eu hamgylchiadau adeg gwneud y penderfyniad er mwyn cefnogi eu dadl na fyddai'r un awdurdod derbyn rhesymol wedi gwneud penderfyniad o'r fath.

C.15 Os bydd y panel yn penderfynu nad oedd penderfyniad yr awdurdod derbyn yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi'i wneud o dan amgylchiadau'r achos, yna **dylai** gadarnhau'r apêl. Lle bydd y panel yn penderfynu y byddai awdurdod derbyn rhesymol wedi derbyn rhagor o blant cyn i hynny beri anfantais o ran maint dosbarth, ond bod mwy o apelwyr llwyddiannus posibl na'r nifer y gallai eu derbyn heb achosi anfantais o'r fath, **dylai** ddilyn y broses dau gam fel y'i disgrifir ym mharagraffau 5.17 a 5.18. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen gohirio'r gwrandawiad(au) er mwyn i'r apelydd a'r awdurdod derbyn ill dau ailystyried sut y mae cyflwyno'u hachos.

C.16 Lle bydd apelau sawl-achos yn ymwneud â maint dosbarthiadau babanod, **dylai'r** panelau ymdrin â hwy mewn un o'r ddwy ffordd a ganlyn:

a) Apelau grŵp - lle bydd dadl yr awdurdod derbyn y byddai'n anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon oherwydd y camau perthnasol y byddai angen eu cymryd er mwyn cadw at y cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau (h.y. cam 1) yn cael ei chlywed unwaith yng ngŵydd pob apelydd. Os yw'r panel wedi ei fodloni bod amodau maint dosbarthiadau babanod yn berthnasol, bydd y panel yn bwrw ymlaen i ystyried apelau'r apelwyr unigol, heb i'r lleill fod yn bresennol. Felly,

[30] The School Admissions Appeal Panel for the London Borough of Hounslow v the Mayor and Burgesses of the London Borough of Hounslow [2002] EWCA Civ 900.
[31] R v Secretary of State for the Home Department [2000] 2 A.C. 115.
[32] Council of Civil Service Unions v Minister for the Civil Service [1985] A.C. 374.

bydd y panel yn ystyried yng nghyswllt pob apelydd a yw Sail A, Sail B neu Sail C yn berthnasol. **Ni ddylid** penderfynu nes bod pob apêl wedi'i chlywed.

b) Apelau unigol - lle bydd y panel yn clywed pob apêl unigol yn y drefn a nodir uchod. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y panel yn gwrando ar ddadl yr awdurdod derbyn y byddai'n anfanteisiol o ran darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon oherwydd y camau y byddai angen eu cymryd er mwyn cadw at y cyfyngiad statudol ar faint dosbarthiadau, ar gyfer pob apêl yn ei thro.

## Ffactorau eraill wrth ystyried apelau ynglŷn â maint dosbarthiadau babanod

C.17 Mewn rhai ardaloedd, er bod awdurdodau derbyn yn ystyried pob cais am dderbyn plant sydd ar drothwy pump oed ar yr un pryd, derbynnir plant i'r dosbarthiadau derbyn ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn ysgol (e.e. ym mis Medi, ym mis Ionawr ac ym mis Ebrill). Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu rhoi sylw dyladwy i ddeddfwriaeth ynglŷn â maint dosbarthiadau babanod heb roi rhieni sydd o bosibl am ohirio derbyn eu plentyn i'r ysgol tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol dan anfantais. Bydd hefyd yn sicrhau bod modd gwrando pob apêl ar yr un pryd, ni waeth ym mha dymor y bydd y disgybl yn dechrau'r ysgol. Os bydd rhieni'n penderfynu gohirio'r dyddiad y bydd eu plentyn yn dechrau'r ysgol tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ysgol, **dylai** panel ystyried ei le yn yr un modd â phetai'r plentyn eisoes wedi llenwi'r lle hwnnw.

C.18 O dan amgylchiadau cyfyngedig, a bennir yn y Rheoliadau, caniateir derbyn plant fel eithriadau i'r cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod. Dyma'r plant a eithrir:

1. Plant y mae eu datganiadau AAA/Cynllun Datblygu Unigol yn pennu y **dylent** gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a gafodd eu derbyn i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.

2. Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (plant sy'n derbyn gofal)[33], neu blant a oedd yn arfer derbyn gofal[34] sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.

3. Plant y gwrthodir eu derbyn i ysgol yn y lle cyntaf, ond y cynigir lle iddynt wedyn y tu allan i gylch derbyn arferol, yn sgil cyfarwyddyd panel apelau derbyn, neu oherwydd bod y sawl a oedd yn gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn sylweddoli bod camgymeriad wedi'i

---

[33] Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 74(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu adran 22(1) o Ddeddf Plant 1989 ac sy'n cael ei dderbyn i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

[34] Mae'r paragraff hwn yn gymwys i blentyn a oedd yn arfer derbyn gofal gan awdurdod lleol ond sydd wedi rhoi'r gorau i dderbyn gofal oherwydd ei fod wedi'i fabwysiadu neu wedi dod yn ddarostyngedig i orchymyn trefniadau plentyn neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig, ac a dderbynnir i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

wneud o ran rhoi trefniadau derbyn yr ysgol ar waith.

4. Plant a dderbynnir y tu allan i'r cylch derbyn arferol:
    - y mae'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol wedi cadarnhau na allant gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref am eu bod wedi symud i'r ardal y tu allan i gylch derbyn arferol, neu
    - y maent eisiau addysg grefyddol, neu addysg Gymraeg a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas o fewn pellter rhesymol.

5. Plant a gafodd eu derbyn i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol ar ôl i'r ysgol drefnu ei dosbarthiadau, gan olygu y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd cam perthnasol pe na bai'r plant hynny yn ddisgyblion a eithrir.

6. Plant y mae eu rhiant yn y lluoedd arfog ac a dderbynnir i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol.

7. Plant y mae eu gefaill neu frawd neu chwaer arall o enedigaeth luosog yn cael ei dderbyn fel disgybl nas eithrir, fel y disgybl(ion) olaf i gael lle cyn cyrraedd y nifer derbyn terfynol.

8. Plant sy'n ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion arbennig, ond sy'n cael rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.

9. Plant ag AAA sydd fel rheol yn cael eu haddysgu mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd, ond sy'n cael rhai o'u gwersi mewn dosbarthiadau prif ffrwd.

C.19 Bydd disgyblion a eithrir yn aros felly, ar ôl eu derbyn, am weddill eu hamser mewn dosbarth babanod neu nes bod niferoedd y dosbarth yn gostwng i gydymffurfio â'r terfyn presennol ar gyfer maint dosbarthiadau babanod. Er enghraifft, os bydd plentyn nas eithrir yn gadael y dosbarth, neu os bydd dosbarth babanod ychwanegol yn cael ei greu neu athro/athrawes ychwanegol yn cael ei benodi/phenodi, bydd y plentyn hwnnw'n peidio â bod yn ddisgybl a eithrir. **Dylai** panelau apelau derbyn ystyried hyn. **Rhaid** i ddosbarthiadau gael eu trefnu er mwyn cydymffurfio â'r terfyn bob cyfle posibl. Gallai hyn gynnwys dosbarthiadau cohortau cymysg.

# Atodiad D: Gwahaniaethau diwylliannol

D.1 **Dylai** panelau apêl gadw gwahaniaethau diwylliannol mewn cof wrth wrando apelau. Dyma chwe phwynt allweddol:

- **Ni ddylid byth** â defnyddio iaith a allai beri tramgwydd wrth siarad am bobl o wahanol gefndiroedd ethnig.
- **Dylai** aelodau panelau ddangos eu bod yn gyfarwydd ag enwau pobl o wahanol ddiwylliannau (gweler D.3 isod).
- **Dylai** aelodau panelau ddangos eu bod yn deall rhywfaint am gefndir arferion cymdeithasol a theuluol y prif gymunedau ethnig yn eu hardal.
- **Dylai** aelodau gofio y gall anawsterau cyfathrebu godi'n aml, hyd yn oed pan fydd yr apelydd i bob golwg â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn brif iaith iddynt. **Dylid** bod yn arbennig o ofalus mewn gwrandawiadau lle defnyddir dehonglwyr/cyfieithwyr.
- Wrth geisio pwyso a mesur pa mor gryf yw achos apelydd, **dylai** aelodau fod yn effro i'r posibilrwydd y gall pobl o gefndir gwahanol ymddwyn yn wahanol e.e. mewn rhai diwylliannau, mae edrych i fyw llygad rhywun mewn awdurdod yn cael ei ystyried yn ddigywilydd. **Ni ddylid** tybio bod hyn yn golygu bod yr apelydd yn osgoi'r cwestiwn.
- **Ni ddylai** aelodau panelau **byth** wneud datganiadau cyffredinol na datganiadau a allai fod yn sarhaus ynglŷn â phobl o gymuned benodol.

(Crynodeb o erthygl a ysgrifennwyd gan Mr Ustus Henry Brooke a gyhoeddwyd yn 'The Magistrate' Rhagfyr 1992).

D.2 Yn anad dim, **rhaid** i banelau apêl sicrhau nad yw eu penderfyniad yn gwahaniaethu ar sail hil yn erbyn apelydd, a **rhaid** iddynt roi sylw i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Enwau a systemau enwi

D.3 Mae'n bwysig bod panelau apêl yn cyfarch apelwyr ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y fath fodd fel nad yw'n peri na dryswch na thramgwydd. Mae Llyfr y Fainc ar Driniaeth Gyfartal a gyhoeddwyd gan y Coleg Barnwrol yn cynnig nifer o esboniadau sylfaenol ynglŷn â systemau enwi a ddefnyddir gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig penodol, er enghraifft:

## Systemau enwi De Asia

**Hindŵ** enw personol + enw canol + enw'r teulu

e.e. Dylid cyfarch Vijay Lal Sharma a Jyoti Devi Chopra fel Mr Sharma a Mrs Chopra.

**Sikh** gwryw: enw personol + Singh (+ enw'r teulu)

benyw: enw personol + Kaur (+ enw'r teulu)

e.e. Dylid cyfarch Karamjit Singh (Gill) a Jaswinder Kaur (Grewal) fel Mr Gill a Mrs Grewal neu Mr Karamjit Singh a Mrs Jaswinder Kaur.

**Mwslim** gwryw: enw crefyddol + enw personol (+ enw a etifeddir) neu enw personol + enw crefyddol (+ enw a etifeddir)

benyw: enw personol + enw teitl neu enw personol + ail enw personol

e.e. Dylid cyfarch Mohammed Rahman (Khan) ac Amina Bibi fel Mr Mohammed Rahman a Mrs Amina Bibi.

## Gwyliau crefyddol ac arferion crefyddol

D.4 Lle bo modd, **ni ddylid** cynnal apelau ar adegau pan na all apelwyr fod yn bresennol o bosibl oherwydd gwyliau crefyddol neu arferion crefyddol. **Dylid** parchu'r adegau hyn, oni fyddai'n anymarferol trefnu'r apêl ar gyfer diwrnod arall ac y byddai hynny'n peri oedi yn y trefniadau apelio.

## Atodiad E: Deunydd ychwanegol (mae'r wybodaeth yn gywir adeg ei chyhoeddi)

- Mae testun yr holl Ddeddfau Seneddol er 1988, Mesurau a Deddfau Senedd Cymru a'r holl Offerynnau Statudol (Rheoliadau) er 1987 ar gael ar y wefan Deddfwriaeth yn: www.legislation.gov.uk/cy.

  Nid yw Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn gwerthu cyhoeddiadau ond mae modd cael fersiynau print o Ddeddf, Offeryn Statudol neu unrhyw gyhoeddiad swyddogol arall drwy wefan y Llyfrfa yn: www.tso.co.uk.

- Mae gan y Coleg Barnwrol rôl gynghori ym maes hyfforddi cadeiryddion ac aelodau panelau. Mae hefyd wedi cyhoeddi arweiniad defnyddiol ar degwch mewn Llysoedd a Thribiwnlysoedd sydd i'w weld ar ei wefan:

  Gwefan: http:///www.judiciary.gov.uk
  E-bost: JudicialCollegeGeneralEnquiries1@judiciary.uk

- Mae'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS) yn darparu cyngor a chymorth arbenigol ar faterion yn ymwneud â gwahaniaethu a hawliau dynol. Mae canllawiau ar gael ar wefan yr EASS yn: eass-ws.custhelp.com
  Cysylltwch â ni
  LLINELL GYMORTH RHADBOST EASS FPN6521
  Ffôn: 0808 800 0082

## Atodiad F: Dogfennau cysylltiedig

- Canllawiau: Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Disgyblion Ysgol Anabl) (Cymru) 2021
- Canllawiau Gwahaniaethu ar sail Anabledd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Y Cod Derbyn i Ysgolion
- Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Council of Civil Service Unions v Minister for the Civil Service [1985] A.C. 374
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- Deddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992
- Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007
- Llyfr y Fainc ar Driniaeth Gyfartal
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
- R (on the application of South Gloucestershire Local Education Authority) v South Gloucestershire Schools Appeal Panel [2001] EWHC Admin 732
- R (ota I) v Independent Appeals Panel for G Technical College [2005] EWHC 558 (Admin)
- R (ota I) v The Independent Appeal Panel of St Edward's College [2001] ELR 542
- R (ota K and S) v Admissions Appeal Panel of Cardiff County Council and Cardiff County Council [2003] EWHC 436 (Admin)
- R v Birmingham City Council Education Appeals Committee ex parte B [1999] ELR 305
- R v London Borough of Richmond ex parte JC [2001] ELR21, CA
- R v Secretary of State for the Home Department [2000] 2 A.C. 115
- Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2009
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2013
- Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Derbyn i Ysgolion (Maint Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013
- Rhieni a cyfrifoldeb rhiant: canllawiau ar gyfer ysgolion
- Safonau'r Gymraeg

- School Admission Appeals Panel for the London Borough of Hounslow v The Mayor and Burgesses of the London Borough of Hounslow [2002] EWCA Civ 900
- St Edward's College and R (ota C) v the Appeals Panel of Nottinghamshire County Council and Nottinghamshire County Council [2004] EWHC 2988 (Admin)
- The Magistrate, Rhagfyr 1992

# Geirfa

**Apelydd**
Y person ifanc neu'r rhiant sy'n apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â derbyn i ysgol.

**Awdurdod derbyn**
Y corff sy'n gyfrifol am osod trefniadau derbyn ysgol a'u rhoi ar waith. Ar gyfer ysgolion cymunedol neu ysgolion gwirfoddol a reolir, yr awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn, oni bai fod y swyddogaeth honno wedi'i dirprwyo i'r corff llywodraethu; ac ar gyfer ysgolion sefydledig neu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, corff llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn.

**Blwyddyn derbyn arferol**
Y pwynt y caiff disgyblion eu derbyn fel rheol i'r ysgol, er enghraifft, dosbarth derbyn neu flwyddyn 7.

**Blwyddyn ysgol**
Yng nghyswllt ysgol, mae'n golygu'r cyfnod sy'n dechrau gyda'r tymor ysgol cyntaf i gychwyn ar ôl Gorffennaf ac sy'n gorffen gyda dechrau'r tymor cyntaf i gychwyn ar ôl y Gorffennaf dilynol.

**Cwynion**
Gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio'u pwerau ymyrryd yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried cwynion am weithredoedd awdurdod derbyn yng Nghymru.

**Cyfrifoldeb rhiant**
Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn Neddf Plant 1989 a golyga'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd, yn unol â'r gyfraith, gan riant plentyn mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo. Nodir yn Neddf Plant 1989, os nad oedd rhieni naturiol plentyn yn briod adeg genedigaeth y plentyn, mai'r fam fydd â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig. Serch hynny, gall y tad gael cyfrifoldeb rhiant drwy amryw sianelau cyfreithiol. Yr achos bellach (ers i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ddod i rym) yw y bydd tad sydd wedi'i gofrestru felly yn y gofrestr o enedigaethau a marwolaethau hefyd yn cael cyfrifoldeb rhiant yn awtomatig. Yn ogystal, mae bellach yn bosibl i 'lys-rieni' (sy'n cynnwys partneriaid sifil) gael cyfrifoldeb rhiant, er enghraifft, drwy wneud cytundeb â rhiant sydd â chyfrifoldeb rhiant.

**Cyfyngiad ar faint dosbarthiadau babanod**
Mae adran 1 o Ddeddf 1998 yn cyfyngu maint dosbarthiadau babanod (h.y. dosbarth lle bydd y mwyafrif o'r disgyblion yn cyrraedd 5, 6 neu 7 oed yn ystod y flwyddyn ysgol) i 30 o ddisgyblion i bob athro/athrawes ysgol.

**Cylch derbyn (arferol)**

Bydd y cylch derbyn arferol yn cychwyn ym mis Medi/Hydref, pan gaiff rhieni eu gwahodd i wneud cais am le i'w plentyn mewn unrhyw ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig, a daw i ben ar y dyddiad y cynigir lleoedd yn y flwyddyn ysgol cyn y derbyn neu'r trosglwyddo. Bydd fel arfer yn digwydd yn y blynyddoedd cyn blwyddyn derbyn, blwyddyn 2 a blwyddyn 6 ar gyfer awdurdodau sydd ag ysgolion babanod, ysgolion iau ac ysgolion uwchradd.

**Diwrnod ysgol**
Diffinnir diwrnod ysgol yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996 fel a ganlyn: mae "diwrnod ysgol", mewn perthynas ag ysgol, yn golygu unrhyw ddiwrnod y cynhelir sesiwn ysgol yn yr ysgol honno. Gall sesiwn ysgol fod yn sesiwn fore neu'n sesiwn brynhawn, felly diwrnod ysgol yw unrhyw ddiwrnod y bydd yr ysgol yn cwrdd am y diwrnod cyfan neu ran ohono.

**Fforwm derbyn**
Corff statudol lleol sy'n gyfrifol am gydlynu effeithiolrwydd a thegwch y trefniadau derbyn lleol. Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau derbyn ac ysgolion, esgobaethau, y gymuned leol a rhiant-lywodraethwyr.

**Goralw**
Pan fo gan ysgol nifer uwch o ymgeiswyr na'r niferoedd derbyn a gyhoeddwyd gan yr ysgol. (Gweler y Meini prawf ar gyfer goralw isod).

**Grŵp oedran perthnasol**
Y grŵp oedran ar gyfer derbyn plant fel rheol. **Rhaid** i bob grŵp oedran perthnasol fod â threfniadau derbyn yn eu lle, gan gynnwys nifer derbyn. Mae gan rai ysgolion (er enghraifft, ysgolion â chweched dosbarth sy'n derbyn plant i'r chweched dosbarth) fwy nag 1 grŵp oedran perthnasol.

**Gwahardd ddwywaith**
Plentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol o 2 ysgol neu ragor.

**Gwrandawiad hybrid**
Mae gwrandawiad hybrid yn wrandawiad lle mae rhai pobl sy'n ymwneud â'r gwrandawiad yn ymuno yn bersonol a rhai yn ymuno o bell (drwy gynhadledd ffôn neu fideo).

**Meini prawf ar gyfer goralw**
Rhestr o'r meini prawf y mae'n **rhaid** i awdurdod derbyn eu mabwysiadu ar gyfer ei ysgol(ion) ond a ddefnyddir dim ond pan fydd goralw am leoedd mewn ysgolion, er mwyn penderfynu pa blant fydd yn cael eu cynnig lle. Ar ôl penderfynu ar y meini prawf ar gyfer derbyn, gan gynnwys y nifer derbyn, **rhaid** i'r ysgol eu cyhoeddi a **rhaid** eu cyhoeddi hefyd ym mhrosbectws cyfansawdd yr awdurdod lleol o leiaf 6 wythnos cyn i'r rhieni neu'r bobl ifanc fynegi eu dewisiadau.

**Nifer derbyn**

Nifer y lleoedd mewn ysgol y mae **rhaid** i'r awdurdod derbyn eu cynnig ym mhob grŵp oedran perthnasol ysgol y mae'n awdurdod derbyn drosti. Mae niferoedd derbyn yn rhan o drefniadau derbyn ysgol, a **rhaid** ymgynghori ynghylch y rhain ynghyd ag ynghylch gweddill trefniadau derbyn ysgol a'u cyhoeddi gyda'r trefniadau hynny ym mhrosbectws yr ysgol ac ym mhrosbectws cyfansawdd yr awdurdod lleol.

**Panel apêl**
Y bobl sy'n gyfrifol am ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau i beidio â derbyn plentyn neu berson ifanc i ysgol. Maent yn hollol annibynnol ar yr awdurdod lleol. Mae unrhyw benderfyniad a wneir gan banel apêl yn derfynol ac yn rhwymol ar yr awdurdod derbyn perthnasol.

**Person ifanc**
Plentyn sy'n ceisio cael ei dderbyn i chweched dosbarth neu ei drosglwyddo o flwyddyn 11 i flwyddyn 12 yn ei ysgol bresennol.

**Plant a oedd yn arfer derbyn gofal**
Plant nad ydynt yn derbyn gofal mwyach oherwydd eu bod wedi'u mabwysiadu neu wedi dod yn ddarostyngedig i orchymyn trefniant plentyn neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

**Plant sy'n derbyn gofal; plant mewn gofal; plant mewn gofal cyhoeddus (gweler hefyd Plant a oedd yn arfer derbyn gofal)**
Plant sydd yng ngofal awdurdodau lleol fel y'i diffinnir gan adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru ac adran 22 o Ddeddf Plant 1989 o ran plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr. Mewn perthynas â deddfwriaeth derbyn i ysgolion, ystyr 'plentyn sy'n derbyn gofal' yw plentyn mewn gofal cyhoeddus ar adeg gwneud cais am le mewn ysgol.

**Rhestr aros**
Rhestr o blant/pobl ifanc sy'n cael ei chadw a'i chynnal gan yr awdurdod derbyn, pan fydd yr ysgol wedi dyrannu pob lle; ar y rhestr, caiff plant/pobl ifanc eu gosod yn ôl trefn blaenoriaeth yn erbyn meini prawf cyhoeddedig yr ysgol ar gyfer goralw.

**Rhiant**
Mae'r diffiniad o "rhiant" yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 yn cynnwys: yr holl rieni naturiol, p'un a ydynt yn briod ai peidio; unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn neu berson ifanc, er nad yw'n rhiant naturiol; ac unrhyw berson, er nad yw'n rhiant naturiol nac yn berson â chyfrifoldeb rhiant, sydd â gofal am blentyn neu berson ifanc. Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at "rhiant" at ddiben y Cod hwn yn union fel y dehongliad uchod o "rhiant" o dan Ddeddf Addysg 1996.

**Trefniadau derbyn**
Y weithdrefn gyffredinol, yr arferion a'r meini prawf ar gyfer goralw a ddefnyddir wrth benderfynu ynglŷn â dyrannu lleoedd mewn ysgolion.